



adnodd dysgu am gelf – celf argraffiadol a modern

national
museum
amgueddfa
cardiff
caerdydd

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

adnodd dysgu am gelf – celf argraffiadol a modern

Mae'r pecyn hwn yn ategu ymweliadau â'r orielau celf Argraffiadol a Modern yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac fe'i paratowyd i helpu athrawon ac arweinwyr grwpiau eraill i drefnu ymweliad llwyddiannus. Darnau celf o Ffrainc y 1840au tan Brydain y 1940au sydd yma'n bennaf. Mae gan bob oriel thema arbennig, ac mae'n arddangos casgliad o baentiadau, darluniau, cerfluniau a chelf gymwysedig.

Sut i drefnu'ch ymweliad

Y Swyddfa Addysg – trefnu ymweliad ac ymholiadau cyffredinol

Ffôn: (029) 2057 3240

E-bost: addysg@amgueddfacymru.ac.uk

Mae'n rhaid i bob grŵp archebu ymlaen llaw, boed yn ymweliadau annibynnol neu dan arweiniad yr Amgueddfa.

Mae sgysiau'r oriel ar gyfer pob cyfnod allweddol ar gael ar ddyddiadau penodol bob tymor. Mae'r sgysiau'n para tua 40 munud, ac ar gael i hyd at 30 o ddisgyblion ar y tro. Ar ôl sesiynau dan law'r Amgueddfa, gallai athrawon arwain eu sesiynau eu hunain lle gall disgyblion dynnu lluniau a gwneud nodiadau yn eu llyfr braslunio. Dewch â'ch deunyddiau eich hun.

Gallwch ddefnyddio'r pecyn gwybodaeth hwn i arwain eich sesiynau eich hun. Mae'n cynnwys gwybodaeth am rai o'r gweithiau celf allweddol a chwestiynau a fydd yn annog eich disgyblion i ymateb iddynt.

Casgliadau Celf Ar-lein

Mae llawer o'r gweithiau hyn a rhai eraill sy'n rhan o gasgliad yr Amgueddfa i'w gweld yn adran 'Casgliadau Celf Arlein' gwefan yr Amgueddfa. Ewch i'r adran 'archwilio'r casgliadau' yn www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/celf/arlein sy'n cynnwys gwybodaeth am y gweithiau ac am eu lleoliad. Beth am ddefnyddio hwn ar eich bwrdd gwyn yn y dosbarth?

A fydd pob gwaith celf yn cael ei arddangos?

Os ydych chi'n bwriadu dod i weld gweithiau penodol, cysylltwch â'r Adran Addysg ymlaen llaw i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harddangos. Mae'r orielau yn newid eu harddangosfeydd o bryd i'w gilydd, ac mae gweithiau celf yn cael eu symud o'r arddangosfa am bob math o resymau.

adnodd dysgu am gelf – celf argraffiadol a modern

Sut alla i drefnu ymweliad llwyddiannus â'r orielau celf?

- Ymweld â'r orielau ar eich pen eich hun cyn yr ymweliad grŵp.
- Cyfyngu ar faint o weithiau celf y byddwch yn eu hastudio.
- Gofyn a fydd y gweithiau celf rydych chi eisiau eu hastudio yn cael eu harddangos ar ddiwrnod eich ymweliad. Gallwch wneud hyn drwy ffonio'r Swyddfa Addysg neu fynd i adran Casgliadau Celf Arlein ein gwefan: www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/celf/arlein
- Cyfyngu ar faint o amser y byddwch yn ei dreulio yn yr orielau (2-2½ awr ar y mwyaf).
- Gadael cyn y bydd eich disgyblion wedi cael digon.
- Rhannu'ch disgyblion yn grwpiau bach.
- Rhoi cyfle i ddisgyblion wneud gweithgareddau o flaen gweithiau celf unigol.
- Sicrhau bod detholiad da o weithgareddau sy'n cynnwys edrych, siarad a gwneud pethau.
- Darllenwch y rhan ar ddiwedd y pecyn, 'darlunio yn yr orielau' er mwyn datblygu gweithgareddau.



Map yr Oriol

Tudalen 4

Celf Ffrengig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

(Oriol 11) Tudalennau 5 - 13



Argraffiadaeth ac Ôl-Argraffiadaeth Ffrengig

(Oriol 16) Tudalennau 14 - 29



Celf Brydeinig tua 1900: Teg edrych tua Ffrainc

(Oriol 15) Tudalennau 30 - 40

Celf ar ôl Cézanne: Y 'Cyntefig' a'r Modern

(Oriol 14) Tudalennau 41 - 52



Celf Fodern ers 1930: Swrealaeth a Neo-Ramantiaeth

(Oriol 12) Tudalennau 53 - 60


Darlunio yn yr Oriolau

Tudalennau 61 - 62

Hawlfraint

Rydyn ni wedi ceisio canfod pwy sydd biau'r hawlfraint ym mhob achos, ond byddai'n dda gennym dderbyn unrhyw wybodaeth bellach yn yr Adran Addysg, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CF10 3NP

map yr oriel



Allwedd yr Oriolau

- | | |
|--|---|
| 11 Celf Ffrengig y Bedwaredd
Ganrif ar Bymtheg | 15 Celf Brydeinig tua 1900:
Teg edrych tua Ffrainc |
| 12 Celf Fodern ers 1930:
Swrealaeth a Neo-Ramantiaeth | 16 Argraffiadaeth ac
Ôl-Argraffiadaeth Ffrengig |
| 14 Celf ar ôl Cézanne: Y 'Cyntefig'
a'r Modern | |

celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Newidiodd tirluniau Ffrengig yn y cyfnod hwn. Dechreuodd arlunwyr ymddiddori mewn natur fel pwnc er ei fwyn ei hun, nid fel cefndir i gymeriadau crefyddol neu hanesyddol yn unig. Dechreuodd rhai ohonynt roi pwyslais ar bethau bob dydd a'r byd naturiol. Daeth portreadau o'r werin bobl wrth eu gwaith, tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol yn destunau cyffredin ganddynt. Roedd eu paentiadau yn dangos ymwybyddiaeth wirioneddol o'r byd o'u cwmpas.

Cyn hynny, roedd arlunwyr yn creu brasluniau ac astudiaethau yn yr awyr agored yn hytrach na phaentiadau gorffenedig. Newidiodd hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Manteisiodd llawer ar y rheilffyrdd newydd i adael y ddinas a pheintio lluniau gwledig yn y fan a'r lle. A diolch i diwbiau paent parod, roedd arlunwyr yn gallu gadael eu stiwdios a mynd i weithio yn yr awyr agored.

Jean-Baptiste Camille Corot (1796-1875)

Castel Gandolfo, Bugeiliaid o'r Tyrol yn dawnsio ger Llyn Albano

1855-1860

Olew ar gynfas



celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriol 11)

- Edrychwch ar y paentiad hwn. Gadewch i'ch llygaid grwydro drwyddo.
- Allwch chi feddwl am eiriau unigol i ddisgrifio'r hyn a welwch?
- Sylwch ar y lliwiau. Allwch chi feddwl am enwau newydd i ddisgrifio'r holl liwiau gwyrdd gwahanol sydd yma?
- Faint o bobl sydd yno?
- Beth maen nhw'n ei wneud?
- Pam bod Corot wedi cynnwys pobl yma?
- Edrychwch yn ofalus ar yr olion brwsio a'r paent. Allwch chi ddisgrifio'r olion brwsio?
- Ydych chi'n meddwl mai lle go iawn neu ddychmygol yw hwn?
- Beth sy'n wir a beth sy'n ddychmygol am y lle hwn?
- Disgrifiwch awyrgylch y lle hwn.

Saif Castel Gandolfo, un o gartrefi haf y Pab, ar lan llyn Albano yng nghefn gwlad yr Eidal. Dyma'r ardal wledig a ysbrydolodd Claude Lorrain, arlunydd o'r ail ganrif ar bymtheg a gafodd ddylanwad mawr ar Corot. Roedd teithio i'r Eidal yn cael ei ystyried yn hollbwysig i yrfa peintiwr tirluniau ar y pryd, a bu Corot yno yn ystod y 1820au ac eto'n ddiweddarach. Teithiodd ar hyd a lled Ewrop hefyd, gan lenwi'i lyfrau nodiadau â darluniau a phaentiadau yn yr awyr agored.

Newidiodd ei arddull erbyn y 1850au. Roedd yn defnyddio paent teneuach a lliwiau mwy cynnil, ac yn brwsio'n ysgafnach hefyd. Dechreuodd ddefnyddio llai o liwiau, fel gwyrdd a llwyd golau, a neilltuo rhai llachar ar gyfer pobl – cap coch y dyn a sgarff felen y wraig – gan dynnu sylw atynt. Mae dafnau o liw coch fel hyn yn gyffredin mewn tirluniau traddodiadol, er mwyn gwrthbwyso'r gwyrdd a'r llwyd. Mae'r bobl hyn yn bwysig gan eu bod yn cyfrannu at naws y llun. Mae'r naws a'r awyrgylch a grëir yn bwysicach na manylion y dirwedd.

Roedd hwn yn gyfnod nodedig iawn yng ngyrfa Corot. Enillodd enw iddo'i hun, a daeth y dull hwn o beintio yn boblogaidd iawn yn enwedig ar ôl i'r Ymerawdwr Napoleon III brynu llun ym 1855. Er mai gwaith comisiwn oedd hwn, mae'n debyg iawn i luniau eraill y cyfnod o ran arddull. Mae'n dangos dylanwad yr Eidal a'r arlunydd Claude Lorrain yn arbennig, yn ei ddewis o'r pwnc a'r modd y mae'n darlunio goleuni. Cafodd Corot ddylanwad mawr ar yr Argraffiadwyr, yn enwedig wrth gyfleu goleuni yn ei waith a'r syniad o weithio yn yr awyr agored.

celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Honoré Daumier (1808-1879)

Cinio yn y Wlad

1868

Olew ar fwrdd

- Beth mae'r bobl hyn yn ei wneud?
- Pa fath o weithgaredd yw hwn? A yw'n weithgaredd bob dydd neu'n un anghyffredin?
- Ai gweithgaredd dychmygol yw hwn neu sefyllfa go iawn a welodd yr arlunydd?
- A yw'r llun wedi'i beintio'n araf neu'n gyflym?
- Pam rydych chi'n credu hyn?
- Pam bod yr arlunydd wedi peintio llun mor fach?
- Disgrifiwch naws ac awyrgylch y paentiad hwn.
- A hoffech chi fod yno? Pam?
- A yw'n llun tawel neu swnllyd?
- Pa fath o synau allech chi eu clywed?



celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Roedd testun y paentiad hwn – criw o ddynion yn bwyta ac yfed wrth fynd am dro i'r wlad – yn boblogaidd iawn yn y cyfnod hwn. Mae Daumier yn portreadu'r pleser syml o fwyta, nid trwy ddangos bwyd ar y bwrdd, ond yn ôl ystumiau y dynion a hyd yn oed y ci. Mae'n defnyddio llinellau cryf i awgrymu symudiadau a disgrifio llawer o'r manylion. Mae'r llinellau yn tynnu'n sylw ni at y dyn yn bwydo'r ci, yn awgrymu symudiad y fraich wrth godi'r gwpan, a hyd yn oed y dail sy'n chwythu yn y cefndir. Mae'r llun yn llawn bywyd, wrth i'r dyn yn y canol yfed ei de'n awchus nes bod y gwpan bron yn rhan o'i wyneb.



Roedd Daumier yn ennill ei fywoliaeth trwy greu cartwnau ar gyfer cylchgronau dychanol, ac yn enwog fel artist graffig a cherflunydd yn ogystal â pheintiwr. Roedd ei lithograffi, lle'r oedd yn darlunio ar lechen fechan i greu printiau, yn dylanwadu ar ei baentiadau olew. Mae'r rhan fwyaf o'i luniau olew yn fach hefyd, ac yn defnyddio llinellau fel pe bai'n darlunio â'i baent.

Mae'r darlun olew hwn yn waith gorffenedig, ac mae braslun paratoadol ar gael mewn casgliad arall. Cafodd ei beintio'n uniongyrchol gyda phaent a lliw, gan ddefnyddio llinellau a gwaith brws bras i greu symudiadau byw a naturiol iawn. Mae'r cysgodion a'r golau cynnes yn ychwanegu at naws hamddenol braf y llun, tra bod y dyn ar y dde yn gyfan gwbl yn y cysgod.

celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Jean François Millet (1814-1875)

Y Teulu Gwerinol

1871-1872

Olew ar gyfnas

- Pwy yw'r bobl hyn? Ydy chi'n credu eu bod yn perthyn i'w gilydd? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Beth arall allwch chi ei weld yn y llun?
- Beth sydd yn y cefndir?
- A yw'r gwrthrychau a'r cefndir yn dweud rhywbeth wrthym am y bobl?
- Ydyn nhw'n deulu cyfoethog? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Pa fath o waith chi'n meddwl meant yn wneud?
- Pam ydych chi'n credu y peintiodd yr arlunydd y llun hwn?
- A yw'n ceisio cyfleu neges?
- A yw'n ddarlun realistig?
- Ydych chi'n credu ei fod yn llun gorffenedig?
- Allwch chi ddisgrifio naws ac awyrgylch y paentiad? A yw'r bobl yn hapus neu'n drist? Sut fyddech chi'n teimlo petaech chi'n sefyll yn y llun?



celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Mae'r fam, y tad a'r plentyn yn sefyll gyda'i gilydd fel teulu unedig. Mae'r tad yn sefyll yn dalog a syth. Mae'r fam hefyd yn ymddangos yn gryf a chadarn, ac mae ei bol mawr yn awgrymu ei bod yn feichiog.

Mae'r ffigyrau llawn yn ein hwynebu ac yn edrych tuag atom. Mae llaw'r fenyw wedi'i phlethu ym mraich ei gŵr, tra bo'r plentyn yn cydio yn eu coesau ac yn ffedog ei fam. Er bod y ffigyrau'n ymddangos yn anferthol a chadarn, mae ganddynt nodweddion tyner a gofalg ar hefyd.

Mae'r dillad, y gwrthrychau a'r cefndir yn cyfeirio at eu bywyd a'u gwaith yn y wlad. Dillad gwaith sydd ganddynt, ac mae'r rhaw yn awgrymu bod y dyn yn ffermio. Efallai bod y ffon yn llaw'r wraig yn dal sach o rawn neu fwyd, ond nid yw hynny'n gwbl glir. Mae'r anifeiliaid a'r adeiladau fferm hefyd yn cwblhau'r olygfa wledig.

Llun anorffenedig yw hwn. Craffwch arno'n ofalus, ac fe welwch chi'r olion darlunio a wnaeth Millet cyn iddo ddechrau peintio, yn enwedig yn y cefndir lle mae'r ci rhyfedd yr olwg yn eistedd ger y drws agored. Mae'r golau a'r cysgod sy'n taro'r ffigyrau yn helpu i wneud iddynt ymddangos yn gydnerth a chrwn. Mae rhannau eraill o'r llun wedi'u llenwi â lliwiau priddlyd, pŵl, sy'n adleisio lliwiau'r tir.



Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd sawl artist gefnu ar bynciau a themâu hanesyddol a chrefyddol pwysig, a dechrau peintio delweddau realistig o fywyd bob dydd. Roedd Jean-Francois Millet, a ddisgrifiwyd fel 'realydd', wedi ymddiddori yn y werin wrth eu gwaith erioed. Roedd yn gwyllo'r bobl gyffredin o'i gwmpas yn ofalus, ac yn credu eu bod yn themâu pwysig dros ben ar gyfer ei baentiadau. Mae paentiadau Millet yn dangos caledi a chyni'r bobl hyn, ac ar yr un pryd, yn dathlu eu ffordd galed a digyfnawid o fyw.

celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

Jean François Millet (1814-1875)

Y Chwa o Wynt

1871-1873

Olew ar gynfas

- Beth allwch chi ei weld?
- Pa adeg o'r dydd yw hi? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pa fath o dywydd yw hi? Sut ydyn ni'n gwybod hyn?
- I ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Sut mae'r arlunydd wedi dangos pethau'n symud?
- Beth sydd yn nheu blaen, canol a chefn y llun?
- Ydych chi'n gallu gweld dyn? Pwy yw e, tybed?
- Pam mae e'n wargrwm?
- I ble mae e'n mynd?
- O ble mae'n cerdded?
- Beth mae'n ei wneud?



celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriol 11)

Roedd Millet am ddangos grym natur a'r gwynt yn chwythu yma. Edrychwch ar yr olion brwsio a'r dŵr yn y tu blaen. Sylwch ar siâp y goeden – sy'n cael ei adlewyrchu yn siâp yr unigolyn ar y dde, wrth iddo geisio amddiffyn ei hun rhag y storm.

Mae llawer o luniau Millet wedi'u peintio â lliwiau priddlyd fel y rhain. Mae'r arlunydd yn brwsio'n chwim iawn, ac mae hyn yn helpu i awgrymu nerth y gwynt a cherrynt y dŵr islaw.

Peintiodd lawer o dirluniau, ond gan amlaf dangosent bobl yn llafurio ar y tir. Yn ystod y 1840au cafodd Millet ei ysgwyd i'r byw gan anghyfiawnderau cymdeithasol yn Ffrainc, a dechreuodd ganolbwyntio ar y werin bobl. Symudodd gyda'i deulu o Baris i bentref Barbizon ymhellach i'r de. Roedd nifer o beintwyr tirluniau eraill wedi ymgartrefu yno hefyd. Roeddynt yn hoff iawn o greu paentiadau naturiolaid o'r dirwedd, a byddent yn ei hastudio'n ofalus. Roedd Millet yn aelod o'r grŵp hwn. Wrth beintio'r tirlun, ei fwriad oedd dangos byd natur fel ag yr oedd. Nid oedd yn credu mewn gwneud i rywle ymddangos yn fwy prydferth, ac yn aml byddai'n chwilio am ffyrdd o ddangos effeithiau'r tywydd ar y dirwedd.

● Gweithgareddau yn yr Oriol

Dylech wneud y gweithgaredd hwn cyn dod i'r oriel.

- ▶ Darllenwch y disgrifiad canlynol o'r *Chwa o Wynt* gan Millet. Gofynnwch i'r plant dynnu llun eu hunain ar sail yr wybodaeth hon. Ar ôl cyrraedd yr oriel, byddant yn gallu cymharu eu gwaith â'r llun gwreiddiol.

Mae'r cymylau'n dywyll. Mae creigiau a dŵr yn nhu blaen y llun. Yn y canol, mae coeden fawr sy'n cael ei chwythu i'r ochr gan y gwynt cryf. Mae'r gwreiddiau i'w gweld uwchben y ddaear, ac mae'r canghennau'n disgyn oddi arni.

Gerllaw'r goeden, mae bugail yn brwydro yn erbyn y gwynt wrth geisio gwarchod ei ddefaid ar y gorwel.

Yn y pellter, mae tai fferm bychain. Mae golau'r haul yn sbecian drwy'r awyr dywyll o gwmpas y tai. Mae'r goeden bron â chwympo drosodd yn llwyr.

Ar ôl edrych ar y paentiad yn yr oriel a siarad amdano, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu disgrifiad eu hunain o'r gwaith. Gofynnwch iddynt ddychmygu eu bod yn ei ddisgrifio i rywun na fydd byth yn ei weld.

celf ffrengig y bedwaredd ganrif ar bymtheg (oriel 11)

▶ Paratoi i ysgrifennu cerdd

Ewch ati i greu cronfa o eiriau am y tywydd. Gall hwn fod yn weithgaredd fel dosbarth cyfan.

- Beth yw'r geiriau cyntaf sy'n dod i'r cof wrth i chi edrych ar y llun hwn?
- Gweithiwch eich ffordd drwy'r wyddor a chofnodi'ch geiriau ar daflen yr wyddor. Gallwch ei ddefnyddio yn ôl yn y dosbarth wedyn i ysgrifennu cerdd am y tywydd.

● Yn yr ysgol

- ▶ Ysgrifennwch stori. Dylai fod ganddi ddechrau, canol a diwedd. Cyflwynwch ddetholiad o ymadroddion i'r disgyblion. Rhaid iddynt gynnwys un ohonynt yn eu stori.

Ymadroddion posibl:

- llusgo'r goeden i'r llawr
- crwydro drwy'r tywyllwch
- gwneud i'r afon lifo
- disgyn gyda chlep.

e.e. Roedd hi'n noson ddiflas a thywyll ym mis Hydref. Ar y penrhyn stormus dan awyr ddu, roedd bugail unig yn ceisio achub ei braidd ar y bryniau agored. Prin y gallai symud yn erbyn y gwynt pan rwygwyd coeden enfawr o'i gwreiddiau a **disgyn gyda chlep**. Dychrynodd y bugail, a rhedodd am ei fywyd i ddiogelwch y bwthyn bach carreg yn y pellter.

- ▶ Dyma rai gweithgareddau posibl eraill y gallech eu gwneud yn yr ysgol:
 - Ysgrifennu adroddiad am y tywydd.
 - Ysgrifennu erthygl i bapur newydd, gan gynnwys y penawdau.
 - Meddyliwch am gyfres o gwestiynau i holi'r dyn yn y paentiad.

argraffiadaeth ac ôl- argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Yn y 1860au, daeth criw o artistiaid oedd yn gweithio yn Ffrainc yn bennaf yn adnabyddus fel 'yr Argraffiadwyr'. Roedd yr enw'n deillio o baentiad gan Claude Monet o'r enw *Argraff, Gwawr*. Roedd pobl a oedd yn casáu gwaith Monet a'i gyfeillion yn eu harddangosfa gyntaf ym 1847, yn defnyddio'r gair hwn i sarhau'r arlunydd ifanc. Yn ôl y beirniaid roedd hi'n amlwg nad oedd yr artistiaid hyn yn gallu peintio'n gywir, dim ond creu argraffiadau neu baentiadau anorffenedig.

Roedd yr Argraffiadwyr yn ffafrio pynciau modern o fywyd bob dydd fel ysbrydoliaeth, ac yn peintio yn yr awyr agored er mwyn bod yn agosach at natur a golau naturiol. Cafodd Monet ei gyflwyno i'r syniad o beintio y tu allan yn gynnar yn ei yrfa, ar ôl cwrdd â'r artist Eugene Boudin ym 1856. Fe ddywedodd Monet *'mae gan bopeth sy'n cael ei beintio'n uniongyrchol yn y fan a'r lle ryw nerth, grym, cyffyrddiad bywiog nad yw i'w weld mewn gwaith stiwdio.'*

Roedd yr Argraffiadwyr yn ymddiddori mewn pobl go iawn mewn lleoedd go iawn, yn hytrach na'r themâu clasurol a oedd at ddant artistiaid cyn hynny. Roeddynt yn peintio'n gyflym iawn i greu'r 'argraff' o eiliad mewn amser, ac er mwyn ceisio cofnodi effeithiau cyfnewidiol golau a'r tywydd. Datblygodd dull arbennig o beintio'n fras yn y fan a'r lle, gan beintio lliwiau llachar yn fân ac yn fuan.

Ôl-Argraffiadaeth oedd yr enw a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r arddulliau gwahanol a ddatblygodd ar ôl yr Argraffiadwyr.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Claude Monet (1840-1926)

Eglwys Gadeiriol Rouen: Machlud Haul

1892-1894

Olew ar gyfnas

- Sefwch yn agos at y paentiad hwn. Beth welwch chi?
- Efallai mai dim ond llawer o liwiau gwahanol yn ymdoddi i'w gilydd a welwch chi.
- Sylwch ar wead y paent.
- Meddyliwch am eiriau gwahanol i ddisgrifio'r gweadau gwahanol.
- Cerddwch oddi wrth y paentiad. A yw'n edrych yn wahanol o ochr arall yr Oriel?
- A yw'r llun yn eich atgoffa chi o adeilad mawr erbyn hyn – castell neu eglwys gadeiriol efallai?
- Beth arall ydych chi'n gallu'i weld yn y paentiad? Chwiliwch am ffenestri, tyrrau, drysau a chysgodion.



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Dyma un o ryw 30 o luniau a beintiodd Monet o Eglwys Gadeiriol Rouen yn ystod dechrau'r 1890au. Roedd yn gweithio o ffenestr ystafell oedd yn wynebu tu blaen yr eglwys gadeiriol. Sylweddolodd fod y golau'n newid yn gyson ac yn dylanwadu ar y lliwiau a welai. Felly, roedd am gofnodi sut oedd y golau'n newid golwg yr eglwys gadeiriol o awr i awr ac o un diwrnod i'r llall. Roedd Monet yn dilyn ac yn archwilio effeithiau'r golau o fore gwyn tan nos, ac yn trin ffasâd yr eglwys fel sgrin enfawr y gallai golau ac awyrgylch ddawnsio arni.

Gan ei fod am gyfleu ennyd o amser, datblygodd dechneg a fyddai'n ei alluogi i weithio'n gyflym. Mae ei waith brwsio'n amrywio o ddafnau trwm a thrwchus i gyffyrddiadau chwim a main. Mae'n trin a thrafod ei baent nes ei fod yn ymddangos yn gerfluniol bron. Mae'r cyfan yn dod ynghyd i greu wyneb bras a garw'r eglwys gadeiriol ag ôl tywydd arni.

Does gan Monet ddim diddordeb mewn dangos maint ac ysblander yr adeilad o gymharu â'r llu o adeiladau llai o'i chwmpas. Nid yw'r paentiad yn dweud dim oll wrthym am faint neu siâp yr eglwys gadeiriol. Dim ond darn o'r tu blaen sydd yma. Mae fel pe bai tyrau ac ochrau'r adeilad wedi diflannu dros ymylon y llun. Mae'r darlun wedi'i docio. Cafodd y ffotograff parhaol cyntaf ei dynnu gan ddyfeisiwr Ffrengig o'r enw Niepce ym 1822, a bu datblygiadau pellach yn y 1830au. Cafodd datblygiad ffotograffiaeth ddylanwad ar lu o ddarlunwyr wrth iddynt fabwysiadu cyfansoddiad mwy rhydd a llai ffurfiol fel yr un a welwn yma.

● Gweithgaredd yn yr Oriol

Tynnwch lun o'r hyn rydych chi'n ei weld.

- ▶ Dewiswch ran fechan o'r paentiad, a thynnwch luniau mawr lliwgar. Defnyddiwch ddeunyddiau lliwio trwchus, meddal, fel creons neu basteli olew. Canolbwyntiwch ar ddangos yr olion brwsio, y lliwiau unigol, a'r golau sy'n dawnsio ar wyneb yr adeilad.

● Yn yr Ysgol

Tymhorau'n newid

- ▶ Chwiliwch am leoliad ger eich ysgol i'ch disgyblion sylwi arno. Golygfa drwy'r ffenestr fyddai'n ddelfrydol. Gallai criw o ddisgyblion dynnu lluniau camera, braslunio a pheintio'r olygfa hon ar adegau gwahanol o'r dydd, mewn pob math o dywydd ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)


Claude Monet (1840-1926)

San Giorgio Maggiore yn y Gwyll

1908

Olew ar gynfas

- Beth allwch chi ei weld yma?
- Disgrifiwch y siapiau a'r lliwiau. Faint o liwiau gwahanol allwch chi eu gweld?
- Ydych chi'n meddwl fod yr arlunydd wedi gweld y lliwiau hyn mewn gwirionedd?
- Cymharwch yr awyr a'r dŵr. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y lliwiau a'r gwaith brws?
- Pa adeg o'r dydd y cafodd hwn ei beintio?
- Ydych chi'n meddwl mai darlun o rywle go iawn neu ddychmygol ydyw?
- Ble ydych chi'n credu yr oedd yr arlunydd pan baentiodd yr olygfa hon?
- Ydych chi'n meddwl ei fod yn ddarlun gorffenedig?
- Meddyliwch am eiriau i ddisgrifio'r awyrgylch yn y paentiad.
- Sut fyddech chi'n teimlo pa baech chi yno?
- Allwch chi feddwl beth oedd Monet yn gallu'i weld a'i arogl wrth beintio'r llun hwn?
- Tybed beth oedd ei deimladau?
- Tybed pam ei fod eisiau peintio'r olygfa hon? Oedd e'n ceisio dweud rhywbeth wrthym?



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Ym 1908, treuliodd Monet dri mis yn Fenis gyda'i ail wraig, Alice. Buont yn teithio gyda'i gilydd ar hyd y camlesi mewn gondola, gan wyllo'r haul yn machlud dros y ddinas. Yn *San Giorgio Maggiore*, mae Monet wedi darlunio ynys San Giorgio fel y'i gwelodd o'i gondola yn ystod un o'r teithiau hyn. Ar y dde, mae pen y Gamlas Fawr a chromen Eglwys Santa Maria della Salute, sydd prin i'w gweld drwy'r machlud niwlog.

Roedd Monet wedi'i wefreiddio gan effeithiau golau ar olygfa, a byddai'n aml yn peintio'r un man ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn cofnodi'r newidiadau mewn naws a lliw. Yma, mae amlinelliad yr eglwys i'w weld yn erbyn y lliwiau llachar sy'n cael eu hadlewyrchu yn nhonnau dŵr y gamlas. Ni wnaeth Monet unrhyw ymdrech i gofnodi'r olygfa'n fanwl gywir. Mae'r awyr a'r gamlas yn ymdoddi i'w gilydd heb unrhyw linellau glân neu ffiniau amlwg i'w gwahanu. Mae wedi peintio'r holl ddarlun â dafnau chwim o liwiau llachar pur.

Roedd Claude Monet yn aelod pwysig o'r Argraffiadwyr Ffrengig. Roedd yr Argraffiadwyr yn gweithio ar y cyd i newid syniadau traddodiadol am beintio. Roedd yn well ganddynt weithio yn yr awyr agored yn hytrach na mewn stiwdio, ac roeddynt yn defnyddio lliwiau llachar ac yn brwsio'n sydyn i gofnodi'r eiliadau prin o fywyd bob dydd.

Roeddynt yn cofnodi hanfod yr olygfa yn hytrach na'r manylion unigol. Nid oedd llawer o'r beirniad yn hoffi'r arddull hon i ddechrau, ac roeddent yn ei hystyried yn rhy radical ac arloesol o gymharu â gweithiau mwy traddodiadol â'u lliwiau tywyll a themâu hanesyddol. Erbyn troad y ganrif fodd bynnag, roedd chwaeth y cyhoedd yn Ffrainc wedi newid, a daeth Monet yn adnabyddus fel peintiwr o fri.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Claude Monet (1840-1926)

Lilïau'r Dŵr (tri phaentiad)


1905-08

Olew ar gynfas

- Disgrifiwch beth rydych chi'n ei weld yma.
- Faint o flodau gallwch chi'u gweld?
- Pa fath o flodau ydyn nhw?
- Pa fath o ddŵr yw hwn? Ai dŵr môr, llyn, pwll, baddon neu bwll dŵr?
- Dychmygwch eich bod yn rhoi'ch troed yn y dŵr hwn. Ydych chi'n meddwl y byddai'n boeth neu'n oer? Yn ddwfn neu'n fas? Tybed beth sydd o dan y dŵr?
- Allwch chi weld unrhyw adlewyrchiadau yn y dŵr? Os felly, beth ydyn nhw? Ydyn nhw'n rhoi cliw i ni am yr hyn sy'n amgylchynu'r dŵr?
- Pa liwiau heblaw glas allwch chi eu gweld? Ai lliwiau oeraidd neu gynnes ydyn nhw'n bennaf? Ydyn nhw'n ymddangos yn realistig? Pa fath o naws sy'n cael ei chreu gan y lliwiau hyn?
- Edrychwch ar yr olion brwsio. Ceisiwch ddisgrifio sut mae'r arlunydd wedi defnyddio'r paent. Beth oedd teimladau'r arlunydd wrth beintio'r rhain? Oedd e'n ddig, yn hapus braf neu wedi'i gyffroi? Pa baentiad yw'ch hoff un chi? Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y paentiad hwn?



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)



Mae Claude Monet yn enwog am ei ran yn natblygiad Argraffiadaeth Ffrengig tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Criw o artistiaid a oedd eisiau gweddnewid syniadau traddodiadol am beintio oedd yr Argraffiadwyr. Roedd hi'n well ganddynt beintio yn yr awyr agored yn hytrach nag mewn stiwdio, a byddent yn peintio'n rhydd a chyflym gyda lliwiau llachar i gofnodi eiliadau prin o fywyd bob dydd cyn i bopeth newid. Roeddynt yn cyfleu hanfod golygfa yn hytrach na'r manylion unigol. Nid oedd llawer o'r beirniaid yn hoffi'u harddull i ddechrau, ac yn ei hystyried yn rhy radical o gymharu â'r paentiadau traddodiadol â'u lliwiau tywyll a themâu deallusol. Erbyn troad y ganrif, roedd chwaeth y cyhoedd wedi newid.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)



Erbyn 1890, roedd Monet wedi ennill ei blwyf fel arlunydd llwyddiannus. Prynodd ei gartref yn Giverny, ger Paris, tua'r un pryd a dechrau gweithio ar ei ardd enwog. Adeiladodd bont fwa Siapaneaidd a phlannu lili'r dŵr yn y pyllau. Oddeutu 1899 ymlaen, dechreuodd beintio lluniau o'i ardd yn obsesiynol bron. Roedd ei baentiadau cyntaf yn cynnwys golygfeydd o'r bont, glannau'r pwll dŵr a'r helyg wylofus a oedd yn amgylchynu'r dŵr, ond penderfynodd eu hepgor yn ei baentiadau diweddar a chanolbwyntio'n llwyr ar wyneb y dŵr.

Roedd Monet yn peintio'r olygfa a welai wrth edrych i lawr ar y dŵr o'i bont Siapaneaidd. Saif clystyrau o liliâu yng nghanol crychau ac adlewyrchiadau'r dŵr, a chawn gip ar rai o'r chwyn a'r creigiau o dan yr wyneb. Cafodd ei gyfareddu gan yr olygfa hon, a threuliodd flynyddoedd yn cofnodi effeithiau golau a lliwiau ar ddŵr o dymor i dymor ac ar wahanol adegau o'r dydd. Roedd yn defnyddio lliwiau ysgafn yn bennaf, gydag ambell ddafn lliwgar yma ac acw i bwysleisio'r manylion neu i greu'r argraff o ddyfnder. Mae'n defnyddio dafnau bach o baent ysgafn mewn rhai llefydd, paent trymach mewn mannau eraill, ac yn chwyrlio'r brws ar y cyfnas i greu gwedd ysgafn.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Pierre-Auguste Renoir (1841-1919)

La Parisienne

1874

Olew ar gynfas

- Edrychwch ar y ffrog. Meddyliwch am eiriau i'w disgrifio. Ai dillad bob dydd neu ddillad gorau ydyn nhw? Sut maen nhw'n wahanol i'n dillad ni heddiw?
- Disgrifiwch y cefndir. Pam bod yr arlunydd wedi peintio'r cefndir fel hyn? Ym mhle mae hi'n sefyll?
- Sylwch ar y lliwiau glas amrywiol. Meddyliwch am enwau gwahanol ar eu cyfer. Pam bod yr arlunydd wedi defnyddio'r sawl math gwahanol o las?
- Edrychwch ar y paentiad o bell, ac yna'n agos. Sut fyddech chi'n disgrifio'r gwaith brws?
- Pa fath o ferch yw hi? Ydy hi'n gyfoethog, tlawd, hen, pwysig? Pam ydych chi'n credu hyn?
- Edrychwch ar y ffordd mae'n sefyll, a'r mynegiant ar ei hwyneb. Ydych chi'n gwybod beth yw ei theimladau?
- Pa fath o naws ac awyrgylch sy'n cael eu creu gan y lliwiau? Ydyn nhw'n awgrymu rhywbeth wrthym am y fenyw?
- Pe baech chi'n peintio'r llun hwn eto, pa liwiau fyddech chi'n eu defnyddio? Sut fyddai lliwiau gwahanol yn newid naws y paentiad?




argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Mae *La Parisienne*, neu'r 'Fenyw Las' fel y mae'n cael ei galw, yn bortread cyflawn o Mademoiselle Henriette Henriot, actores Ffrengig a baentiwyd gan Renoir sawl tro. Cafodd y paentiad ei arddangos yn arddangosfa gyntaf yr Argraffiadwyr ym Mharis ym 1874. Ar y pryd, roedd llawer o arlunwyr yn peintio lluniau manwl gywir gyda lliwiau tywyll ond dechreuodd yr Argraffiadwyr wrthryfela yn erbyn hyn. Eu nod oedd cyfleu effeithiau golau a symudiad i greu argraff gyffredinol o'r olygfa. Roeddynt yn brwsio'n rhydd a chyflym gyda lliwiau llachar. Nid oedd y beirniaid yn hoffi'r lliwiau llachar a'r diffyg manylder, ac roedd llawer o'r farn eu bod yn baentiadau blêr a rhy liwgar.

Yma, mae Renoir wedi peintio Henriette yn sefyll mewn ffrog las hir. Mae wedi troi ychydig i'r dde, gyda'i dwylo wedi'u plygu ger ei gwasg, fel petai'n diosg neu wisgo maneg. Mae ganddi wisg ffasiynol dros ben.

Efallai bod rhai o'r manylion fel yr het sy'n cyd-fynd â'i ffrog, y bwa a'r ffrils am ei gwddw, yn dangos dylanwad tad Renoir fel teiliwr. Dim ond gwragedd cefnog fyddai wedi gwisgo'r ffasiwn ddiweddaraf cyn hyn, ond erbyn y 1870au, roeddynt yn fwyfwy cyffredin.

Nid yw Renoir wedi ceisio diffinio pob manylyn yn y paentiad. Mae ei waith brwsio'n anghyson a'r llinellau'n aneglur, yn enwedig ym mhlygiadau'r ffrog. Lliwiau niwlog sydd yn y cefndir, heb fawr ddim cysgodion. Hi sy'n hoelio'n sylw felly, yn enwedig ei hwyneb, ei dillad a'i hosgo.



Ganwyd Renoir yn Limoges, Ffrainc, a phan oedd yn 13 oed, symudodd i Baris i weithio fel prentis i beintiwr porslen. Dysgodd sut i ddarlunio a pheintio, a dechreuodd astudio paentiadau yn y Louvre. Wrth fynychu stiwdio'r peintiwr Charles Gleyre, daeth wyneb yn wyneb â chyd-Argraffiadwyr fel Sisley, Bazille a Monet am y tro cyntaf. Daeth yn aelod blaenllaw o fudiad yr Argraffiadwyr ym Mharis. Peintiodd Renoir lu o destunau gwahanol yn ystod ei yrfa, fel pobl noeth, portreadau a bywyd llonydd, ond mae fwyaf adnabyddus am ei baentiadau o fenywod.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Alfred Sisley (1839-1889)

Y Clogwyn ym Mhenarth, gyda'r Hwyr, Trai

1897

Olew ar gynfas

- Sefwch yn agos at y paentiad. Beth ydych chi'n gallu'i weld?
- Edrychwch am gliwiau a fyddai'n dweud wrthym ba fath o ddiwrnod yw hwn. Pa fath o dywydd sydd yno, a faint o'r gloch yw hi? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Disgrifiwch y dŵr. A yw'n llonydd neu'n symud, yn ddwfn neu'n fas? A oes unrhyw grychau, tonnau neu adlewyrchiadau? Beth yw ei liw?
- Oes unrhyw bobl yma? Ble maen nhw? Beth maen nhw'n ei wneud? Pam bod yr arlunydd wedi'u peintio yn y maint hwn?
- Sut fyddech chi'n disgrifio'r lliwiau a ddefnyddiodd yr arlunydd? Beth yw lliwiau'r cysgodion ar y traeth? Ai dyma fyddai'r lliw go iawn?
- Ceisiwch ddisgrifio sut mae'r arlunydd wedi defnyddio'r paent. A yw'r gwaith brws yr un fath neu'n amrywio dros y llun? Ydych chi'n meddwl fod yr arlunydd wedi'i beintio'n gyflym neu'n araf a ofalus?
- Ble'r oedd yr arlunydd yn sefyll pan beintiodd hwn? Pa fath o anawsterau a all fod wedi'i wynebu wrth beintio o fan hyn?



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Mae ffigwr bychan yn cerdded yng nghysgod y clogwyni ym Mhenarth, ger Caerdydd, ar hyd arfordir y De. Mae bron wedi'i lyncu gan y dirwedd o'i gwmpas. Ar un ochr, mae'r clogwyni'n anferthol uwch ei ben, dan ddrysi gwyrdd o eithin, chwyn a glaswellt. Mae'r môr diderfyn ar yr ochr arall. Mae'r llanw ar drai, gan adael traeth sy'n frith o greigiau, gwymon a phyllau dŵr. Mae'r awyr uwchben braidd yn gymylog, ac mae'r dirwedd yn dechrau tywyllu wrth iddi nosi.

Yr Argraffiadydd Alfred Sisley beintiodd *Y Clogwyn ym Mhenarth*. Er mai yn Ffrainc y cafodd ei eni, roedd yn cael ei ystyried yn Seisnig gan mai dyna oedd ei rieni. Fe oedd yr unig arlunydd Argraffiadol o bwys i ymweld â Chymru a pheintio yma. Daeth i dde Cymru yn haf 1897, gan aros yma am bron bedwar mis – ym Mhenarth i ddechrau cyn symud ymlaen i Benrhyn Gŵyr. Mewn llythyr at gyfaill, dywedodd fod cefn gwlad Cymru yn brydferth iawn, a'r ffyrdd, a bod y llongau a hwyliai yn ôl ag ymlaen i Gaerdydd yn wych.

Roedd Sisley wedi'i gyfareddu'n llwyr gan strwythurau'r creigiau a welodd ar hyd arfordir de Cymru, a dechreuodd greu cyfres o baentiadau olew o olygfeydd pen clogwyn a morluniau. Roedd wrth ei fodd gyda byd natur, a byddai'n aml yn peintio 'en plein-air', neu yn yr awyr agored, gan ymgodymu â'r elfennau'n aml wrth geisio peintio ar ben y clogwyni agored a gwyntog.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Edgar Degas (1834-1917)

Dawnswraig yn edrych ar wadn ei throed dde

Tua 1900

Efydd

- Pa fath o waith celf yw hwn? (Darlun, paentiad, cerflun...?)
- Disgrifiwch liw, pwysau a gwead y defnydd. Allwch chi ddyfalu o beth mae wedi'i wneud?
- Edrychwch arno'n ofalus. Sut cafodd ei greu? Pa offer ddefnyddiodd yr artist? Allwch chi weld unrhyw farciau sy'n rhoi cliw i chi?
- Disgrifiwch sut mae'r ffigur yn sefyll. Beth mae hi'n ei wneud?
- Allwch chi sefyll fel hyn? Am ba hyd allwch chi wneud hynny? Ydych chi'n meddwl fod model wedi sefyll fel hyn o flaen yr artist?
- Edrychwch ar ei hwyneb. Sut olwg sydd arni? Ydych chi'n credu ei fod yn bortread o rywun arbennig?
- Pam nad oes unrhyw beth yn amgylchynu'r ffigur? A wnaeth yr artist anghofio cynnwys cefndir? Pa gefndir fyddech chi'n ei roi iddi?



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Mae'r cerflun efydd hwn yn dangos menyw'n ceisio cadw'i chydbwysedd wrth sefyll ar un goes ac edrych ar wadn ei throed dde. Mae ei braich dde yn gogwyddo i un ochr, ac mae wedi troi ei chorff yn chwithig braidd wrth geisio sadio'i hun.

Cafodd y byd celf ei weddnewid gan Edgar Degas a'r Argraffiadwyr Ffrengig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Penderfynon nhw gyfleu eiliadau o fywyd bob dydd yn hytrach na pheintio testunau traddodiadol o fyd hanes a chwedloniaeth. Cafodd Degas ei ysbrydoli gan theatrau a chaffis strydoedd Paris. Portreadodd berfformwyr opera a merched wrth eu gwaith, ac roedd llawer o'i waith yn canolbwyntio ar ddawnsywyr. Y golygfeydd gefn llwyfan a realiti'r byd dawnsio oedd yn apelio ato fwyaf. Darluniodd ddawnsywyr yn gwbl naturiol, wrth iddynt gynhesu, ymarfer neu loetran tu ôl i'r llwyfan. I Degas, roedd portreadu osgo neu symudiad byrfyfyr a naturiol yn bwysicach na chreu'r union debygrwydd.

Roedd Degas yn defnyddio'i gerfluniau fel brasluniau, gan arbrofi gyda'r ffurf a symudiadau tri dimensiwn. Dim ond un cerflun a gafodd ei arddangos ganddo erioed, sef *Dawnsraig wedi Gwisgo*. Gallwch weld astudiaeth ar ei gyfer yma yn yr Amgueddfa. Cafodd cerfluniau eraill ganddo, llawer mewn cyflwr bregus, eu darganfod yn ei stiwdio ar ôl iddo farw, a chafodd nifer fechan o gastiau efydd eu creu er mwyn eu diogelu. Ar ôl darganfod y cast arbennig hwn, roedd pobl yn meddwl ei fod yn portreadu dawnswraig, a chafodd ei henwi felly. Ers hynny fodd bynnag, mae eraill wedi awgrymu ei bod yn fwy tebygol fod y ddynes yn sychu ei thraed ar ôl bod yn ymolchi.

argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

Vincent van Gogh (1853-1890)

Glaw – Auvers

1890

Olew ar gynfas

- Edrychwch ar y paentiad hwn. Meddyliwch am eiriau i ddisgrifio'r hyn rydych chi'n ei weld.
- Llinellau...gwynt...glaw...glas...melyn...caeau...bryniau...coed...symudiad...toeon...
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd yma?
- Disgrifiwch y lliwiau sydd yn y llun. Pa fathau gwahanol o felyn a glas sydd yma?
- Sut fyddech chi'n teimlo pe baech chi'n sefyll yn y cae hwn?
- Meddyliwch am y tro diwethaf yr oeddech chi'n syllu drwy'r ffenestr pan oedd hi'n glawio'n drwm. Beth oeddech chi'n gallu'i weld? A oedd hi'n anodd gweld yr olygfa?

Dyma baentiad o bentref Auvers a'r caeau a'r bryniau cyfagos ar ddiwrnod gwlyb. Mae'n ddiwrnod diflas dros ben, gyda'r glaw'n cael ei hyrddio gan y gwynt ac yn cuddio'r pentref. Cafodd ei beintio yn ystod misoedd olaf bywyd yr arlunydd, Vincent Van Gogh. Treuliodd y ddau fis olaf o'i fywyd yn byw yn y pentref yma yng ngogledd Ffrainc ac fe beintiodd lawer o luniau yn ystod y cyfnod hwn. Tirluniau dramatig oeddynt yn bennaf, wedi'u peintio'n gwbl naturiol a rhydd.

- Ydych chi erioed wedi ceisio portreadu glaw mewn paentiad neu ddarlun?
Sut aethoch chi ati i wneud hynny?

Penderfynodd Van Gogh bortreadu'r glaw trwm trwy beintio cyfresi o ddafnau glas trawiadol blith draphlith ar y cynfas. Credir mai o brint Siapaneaidd y cafodd yr ysbrydoliaeth i gyfleu glaw fel hyn. Roedd eisoes wedi gwneud copi o brint Hiroshige, *Pont yn y Glaw*, ym 1887. Dyma'r tro cyntaf iddo geisio cyfleu glaw mewn ffordd mor graffig.



argraffiadaeth ac ôl-argraffiadaeth ffrengig (oriel 16)

- Beth yw diben y paentiad hwn? Ai dangos y tywydd yn unig, neu a yw Van Gogh yn ceisio cyfleu rhywbeth arall?

Cyfeiriodd Van Gogh at ei dristwch a'i unigrwydd eithafol mewn llythyr at ei frawd. *'Maent yn gaeau gwenith eang dan wybren stormus, a doedd dim angen i mi wneud dim neilltuol i gyfleu'r tristwch a'r unigrwydd llethol ynddynt.'*

Mae lliwiau'r paentiad hwn yn dipyn mwy gwelw na lliwiau ei baentiadau o dde Ffrainc. Dyma liwiau diwrnod glawog yng ngogledd Ffrainc. Nid yw'r ansawdd a'r gwead cyffredinol mor drawiadol ag yr oedd yn wreiddiol. Mae'r gwaith brws fel pe bai wedi llyfnu ar ôl i rywun adael y cynfas i bwysu yn erbyn arwyneb arall cyn cael cyfle i sychu'n iawn. Ar ôl i'r arlunydd farw, fe aeth ei frawd Theo ati i gasglu'i baentiadau at ei gilydd. Mae paent olew yn gallu cymryd cryn amser i sychu, yn enwedig paent mor drwchus â hwn. Mae'n siŵr fod y paent yn dal yn feddal pan gafodd y paentiad hwn ei storio.

Peintiwr o'r Iseldiroedd oedd Vincent van Gogh. Dechreuodd ei yrfa artistig trwy beintio golygfeydd tywyll iawn i gynrychioli bywyd y tlodion. Dechreuodd ymddiddori mewn lliw a golau, a chafodd ei gyflwyno i iaith Argraffiadaeth cyn diflasu ar hynny maes o law. Yn ystod ei gyfnod yn Arles, de Ffrainc, defnyddiodd liwiau coch a melyn poeth ardal Môr y Canoldir i gynrychioli ei hwyliau ar y pryd.

Byddai'n aml yn llurgunio'r hyn a welai i gynrychioli ei deimladau ei hun. Dechreuodd frwsio'n fwy gwyllt, ac mae'n bosibl fod y llinellau troellog a cham yn adlewyrchu ei gyflwr meddwl bregus ac anobeithiol. Symudodd i Auvers, gogledd Ffrainc, ym 1890. Treuliodd 70 diwrnod olaf ei fywyd yn peintio'n ddi-baid. Ar 29 Gorffennaf, 1890, cerddodd i ryw gae a saethu ei hun. Bu farw ddeuddydd wedyn, gyda'i frawd Theo wrth ei ochr.

● Yn yr ysgol

Marciau a chyfleu emosiynau

- ▶ Trafodwch gyda'r disgyblion, sut mae gwahanol fathau o linellau a marciau mewn paentiad, darlun neu gerflun yn gallu awgrymu emosiynau gwahanol. Mae'r paentiad hwn o'r 'glaw' yn enghraifft dda iawn. Rhowch bapur plaen ac amrywiaeth o ddeunyddiau marcio i'r plant – pensiliau, creons, siarcol, pasteli olew, paent, brwshys... Rhowch air i bob plentyn, a gofynnwch iddyn nhw farcio neu dynnu llinell ar y papur sy'n awgrymu'r gair hwnnw. Bydd gan bawb ddehongliad gwahanol o'r geiriau.
- ▶ Roedd gan lawer o artistiaid ddiddordeb yn effaith y tywydd ar y dirwedd. Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am enghreifftiau o baentiadau, ffotograffau neu ddarluniau sy'n dangos mathau gwahanol o dywydd. Dewiswch le y gall y disgyblion ei wyllo'n hawdd, fel golygfa drwy'r ffenestr. Dros yr wythnosau nesaf, gofynnwch iddyn nhw gadw golwg ar y tywydd cyfnewidiol a chofnodi effaith hynny ar y lle dan sylw.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

Rhwng 1880 a'r Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd llawer o artistiaid Prydeinig eu hysbrydoli gan gelfyddyd Ffrainc. Dechreuon nhw beintio testunau cyfoes a'r byd o'u cwmpas. Roedden nhw hefyd yn arbrofi gyda lliw a thechneg, fel yr Argraffiadwyr. Nod yr oriel hon yw dangos y dylanwad hwn.

George Clausen (1852-1944)

Yn y caeau ym Mehefin

1914

Olew ar gynfas



celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

- Beth oedd y peth cyntaf y sylwoch chi arno yn y paentiad hwn?
- Beth arall allwch chi ei weld yma?
- Beth mae'r dynion yn ei wneud?
- Ble maen nhw?
- Beth allwch chi ei weld yn y pellter?
- Disgrifiwch y lliwiau.
- Disgrifiwch y gwahanol weadau.
- Pa fath o ddiwrnod yw hi?
- Fyddech chi'n hoffi bod yno?

Cafodd George Clausen ei ysbrydoli gan fywyd y werin a golygfeydd gwledig. Mae'r awyr lachar gymylog yn hoelio'r sylw yn y paentiad hwn, sy'n dangos dau ddyn – y naill yn gweithio a'r llall yn cael ei wynt ato. Roedd yr arlunydd wedi bwriadu peintio llun o chwech neu saith gweithiwr yn wreiddiol, cyn newid ei feddwl wrth gynllunio'r llun. Mae goleuni yn llenwi'r llun gan daflu golau ar y cae a'r gweithwyr islaw. Mae gwedd y llain o dir yn y blaendir yn cyferbynnu â'r pellter canol a'r awyr fry.

Sais oedd Clausen, a ddaeth dan ddylanwad yr Argraffiadwyr â'u defnydd o olau a'r pwyslais ar bortreadu byd a phrofiadau pobl gyffredin. Efallai bod lluniau o'r werin gan Millet hefyd wedi'i ysgogi i ddewis y testun ar gyfer ei waith.

Dechreuodd Clausen beintio ar raddfa fawr ychydig cyn y Rhyfel Mawr, a gwelwyd y gwaith hwn yn arddangosfa haf yr Academi Frenhinol ym 1914. Ym 1917 daeth yn un o arlunwyr swyddogol y rhyfel ac mae llawer o'i brintiau o'r cyfnod hwn yn rhan o gasgliad Oriol Tate.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriol 15)

Charles Sims (1873-1928)

Y Barcut

Tua 1910

Olew ar gyfnas

- Beth sy'n digwydd yma?
- Ydych chi'n gwybod ble maen nhw?
- Pa fath o synau fydddech chi'n eu clywed pe baech chi yn y llun hwn?
- Ydych chi wedi hedfan barcut erioed?
- Ydych chi'n gallu cofio sut brofiad oedd e?
- Disgrifiwch y tywydd yn y paentiad.
- Edrychwch ar y modd y mae wedi'i beintio.
- Disgrifiwch y gwaith brws.

Mae'r gwaith brws ysgafn a sydyn yn cyfleu awyrgylch diwrnod gwyntog o haf. Fe baentiodd Charles Sims sawl llun o fenywod a phlant yn yr awyr agored ar lan y môr ar ddechrau'i yrfa. Fel yr Argraffiadwyr o'i flaen, mae wedi dal ennyd mewn amser wrth i'r fenyw wyllo'r barcut yn hofran yn yr awyr. Mae Sims wedi dewis edrych i fyny tuag at y ffigurau a'r barcut yn yr awyr. Mae'r golau llachar ar y tywod a gwsg y fenyw yn cyferbynnu â'r cysgodion mwy tywyll mewn rhannau eraill o'r paentiad.



Peintiwr

tirluniau a

phortreadau o Loegr oedd Charles Sims. Roedd ei baentiadau o'r cyfnod cyn y Rhyfel Mawr, fel hwn, yn dra gwahanol i'r rhai a wnaeth wedi'r rhyfel. Ei brofiadau fel un o arlunwyr swyddogol y rhyfel a marwolaeth ei fab oedd yn gyfrifol am y newid hwn.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriol 15)

Dorothea Sharp (1874-1955)

Ar Lan y Môr

Olew ar gynfas

- Beth mae'r plant yn ei wneud?
- Ydych chi'n gallu cofio'r tro diwethaf i chi chwarae ar lan y môr?
- Sut oedd eich profiad chi'n wahanol i'r hyn sydd yn y llun?
- Oeddech chi'n gwisgo dillad tebyg i'r plant hyn?
- Oeddech chi'n chwarae gyda'r un math o bethau?
- Beth ydych chi'n gallu'i weld yn y dŵr?
- Disgrifiwch y tywydd yn y llun.
- Pa fath o liwiau mae'r arlunydd wedi'u defnyddio?
- Faint o'r awyr allwch chi ei weld?
- Pam eich bod yn meddwl fod yr arlunydd wedi peintio hwn? Beth oedd yn apelio ati?

Roedd Dorothea Sharp wrth ei bodd yn peintio golygfeydd delfrydol a heulog, ac mae ei lluniau'n aml yn dangos plant yn chwarae ar lan y môr ac mewn gerddi. Roedd hi'n peintio tirluniau a blodau hefyd. Cafodd ei hysbrydoli gan waith yr Argraffiadwr Claude Monet, wrth hyfforddi yn Llundain a Pharis.



Gallwn weld dylanwad Monet yma, wrth iddi gyfleu effeithiau'r golau ar wyneb y dŵr a dangos criw o blant yn chwarae. Mae ei lliwiau llachar a chyferbyniol a'r gwaith brws rhydd hefyd yn ein hatgoffa o dechneg peintio'r Argraffiadwyr. Mae'r cyfansoddiad cywasgedig, nes bod y cychod yn y pellter yn diflannu i bob pwrpas, yn hoelio'n prif sylw ar y plant yn chwarae.

Mae'n debyg mai golygfa o St Ives yng Nghernyw yw hon, sef cartref yr arlunydd yn ystod y 1940au.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

Augustus John (1878-1961)

Peintiwr portreadau oedd Augustus John. Fe baentiodd lawer o luniau o aelodau'i deulu; ei wraig, ei feistres, ei chwaer a'i blant. Mae llawer o'r gweithiau hyn yn rhan o gasgliad yr Amgueddfa, ac i'w gweld yn yr oriel hon.

Hunanbortread

1913

Olew ar gyfnas

- Beth mae'r portread hwn yn ei ddweud wrthym am Augustus John?
- Edrychwch ar fynegiant ei wyneb.
- Ydy e'n hapus, yn drist neu'n ddifrifol?
- Ydych chi'n gwybod sut mae'n teimlo?
- Beth mae'n ei wisgo?
- Disgrifiwch ei wallt.
- Gallwn weld sut oedd yn defnyddio techneg peintio rhydd yn ei waith.
- Ydych chi'n meddwl ei fod wedi treulio cryn amser yn peintio'r llun?
- A yw rhannau o'r gwaith yn anorffenedig?

Peintiodd Augustus John yr hunanbortread hwn pan oedd yn 35 oed. Roedd wedi ennill ei blwyf fel peintiwr portreadau erbyn hynny, ac yma, mae'n portreadu ei hun mewn smoc arlunydd. Mae wedi peintio'n gwbl rydd, ac mae patrwm y cynfas garw i'w weld o hyd mewn manau. Ganwyd John yn Ninbych-y-pysgod, Sir Benfro, ac roedd yn frawd i'r arlunydd Gwen John.



© Hawffraint trwy gareigrwydd ystad yr artist/Llyfrgell Gelf Bridgeman.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

Edwin John

Tua 1911

Olew ar banel

- Allwch chi ddyfalu faint oedd oed y bachgen bach pan gafodd y llun hwn ei beintio?
- Beth mae'n ei wneud yma?
- Beth sydd ganddo yn ei law?
- Disgrifiwch ei ddillad.

Edwin John (1905-78) oedd pedwerydd plentyn Augustus ac Ida John. Bu'n baffiwr am gyfnod ac yna'n beintiwyr dyfrlliw. Cafodd y braslun olew hwn ei wneud tua 1911 pan oedd yn 6 oed.



© Hawifraint trwy gareidgrwydd ystad yr artist/Lyfrgell Gelf Bridgeman.

Pyramus John

Tua 1914

Olew ar gynfas

- Beth ydych chi'n sylwi arno gyntaf wrth edrych ar y portread hwn?
- Allwch chi ddyfalu faint oedd oed y plentyn hwn?
- Disgrifiwch deimladau'r plentyn.
- Edrychwch ar yr olion brwsio.
- Sut cafodd ei beintio?

Pyramus John (1905-1913) oedd plentyn hynaf Augustus a Dorelia McNeill. Cafodd ei eni mewn carafán yn Dartmoor. Bu farw o lid yr ymennydd pan oedd yn 7 oed. Cafodd y portread hwn ei beintio flwyddyn ar ôl iddo farw, ac mae'n seiliedig ar ddarlun cynharach sydd hefyd yn rhan o gasgliad yr Amgueddfa. Yma, mae'n eistedd ar gadair yn edrych i fyw llygaid yr arlunydd.



© Hawifraint trwy gareidgrwydd ystad yr artist/Lyfrgell Gelf Bridgeman.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriol 15)

Gwen John (1876-1939)

Mère Poussepin yn ei Heistedd wrth Fwrdd

Canol y 1910au

Olew ar gynfas

- Beth allwch chi ei weld yn y paentiad hwn?
- Disgrifiwch y fenyw – ei hwyneb a'i dillad.
- Allwch chi feddwl am eiriau i ddisgrifio'r teimladau sy'n cael eu mynegi yma?
- Disgrifiwch y lleoliad yn y portread.
- Trafodwch y math o liwiau sy'n cael eu defnyddio yma – pŵl, tawel, tonaidd...
- Edrychwch ar wyneb y paentiad. Disgrifiwch y marciau peintio.

Symudodd Gwen John i fyw ym mhentref Meudon ym maestrefi Paris ym 1910. Trodd at y ffydd Babyddol ym 1913 a daeth yn gyfeillgar iawn â'r lleianod a oedd yn byw mewn lleiandy yn Meudon. O hynny ymlaen, roedd tu mewn i eglwysi, lleianod a phlant amddifad yn amlwg iawn mewn sawl darlun a dyfrlliw ganddi.

Ym 1913, cafodd ei chomisiynu gan y lleianod i beintio portread o'u sylfaenydd, Mère Marie Poussepin (1653-1744). Roedd y portread wedi'i seilio ar gerdyn gweddi o 1911 a oedd yn seiliedig ar lun olew o'r ddeunawfed ganrif.

Fe gomisiynodd y lleianod bortread ar gyfer pob ystafell yn y lleiandy. Roedd hon yn dasg anodd braidd i Gwen John. Mae'n trafod ei phryderon mewn llythyr at John Quinn, un o'i noddwyr ym 1916. *"Rwy'n poeni'n ddirfawr am ddarlun y gwnes i addo'i wneud i'r lleiandy 2 flynedd yn ôl. Mae'r lleianod wedi colli amynedd mwya'r sydyn. Nid ydynt yn deall pam nad yw'n barod. Mae'n dipyn o gur pen, ond rwy'n meddwl y bydd popeth drosodd yn fuan... Rheswm arall am yr holl oedi yw bod y lleianod eisiau cymaint o luniau, un ar gyfer pob ystafell yn y lleiandy, ac rwyf wedi ceisio'u gwneud nhw i gyd yr un pryd."*



celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriol 15)

Parhaodd y gwaith hwn gydol y degawd. Fe greodd chwe phortread yn y diwedd, yn dangos dau gyfansoddiad gwahanol. Mae tri phortread yn fwy manwl a choeth ac yn dilyn y llun ar y cerdyn gweddi. Er hynny, mae Gwen John wedi ychwanegu darlun ar y wal a blodyn ar y bwrdd. Mae'r rhain yn debyg i'r llun sydd yng nghasgliad yr Amgueddfa. Mae'r tri llun arall dipyn symlach. Mae osgo'r lleian yn debyg i'r un a ddefnyddiodd Gwen ar gyfer y rhan fwyaf o'i phaentiadau o fenywod. Mae llawer ohonynt yn dangos menyw unigol ar ei heistedd yn wynebu rhyw ychydig tua'r ochr ac yn plethu'i dwylo.

Mae'r arlunydd wedi defnyddio paent olew ar rwnd sialc ar gynfas. Dyma a ddefnyddiai Gwen John fel arfer. Mae'n defnyddio dafnau o baent, sy'n gyffredin yn ei gwaith. Ychydig iawn o liwiau oedd ar ei phalet, ac roedd yn hoffi creu graddliwiau cynnil. Roedd hyn yn ei galluogi i ddangos golau'n disgyn ar destun ei lluniau.

Gwen John oedd chwaer hynaf yr artist Augustus John. Cafodd ei geni yn Sir Benfro ym 1876 a bu'n astudio celf yn Llundain cyn symud i Baris, lle buodd tan iddi farw ym 1939. Roedd Paris yn lle bendigedig i artistiaid, ac roedd Gwen John yn cymysgu â rhai o artistiaid gorau'i hoes, gan gynnwys dod yn fodel ac yn gariad i'r cerflunydd Auguste Rodin. Tawel, cynnil a phreifat – dyna'r geiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml i ddisgrifio ei bywyd a'i gwaith celf.

● Gweithgareddau yn yr Oriol ac yn yr Ysgol

Sgwrs gyda Mère Poussepin

- ▶ Mae ysgrifennu ymateb dychmygol i baentiad yn ffordd o helpu disgyblion i gamu i fyd gwaith celf. Defnyddiwch y paentiad hwn fel sbardun i ysgrifennu cerdd.
- ▶ Ewch ati i ysgrifennu deialog ar ffurf barddoniaeth gyda'r disgyblion. Rydych chi'n cerdded i mewn i'r ystafell ac yn cwrdd â'r fenyw hon. Meddyliwch am gwestiynau yr hoffech eu gofyn iddi e.e. Pwy ydych chi? Beth ydych chi'n ei ddarllen? Pam ydych chi'n gwisgo'r dillad hyn? Pam ydych chi'n drist? Oes gennych chi gyfrinach? Gwnewch nodyn o'r holl gwestiynau hyn. Ysgrifennwch gerdd yn llais y fenyw, wrth iddi ateb eich cwestiynau o bosib.
- ▶ Mae cyflythrennu yn ddyfais dda iawn i feirdd ac yn helpu i greu rhythm. Gofynnwch i'ch disgyblion feddwl am eiriau i ddisgrifio'r portread hwn e.e. tawel, trist, du. Rhestrwch nhw. Ychwanegwch eiriau eraill sy'n dechrau gyda'r un llythrennau i greu'ch cerdd, e.e.

...Dynes dawel

Yn synfyfyrion ar y Sul

Ac yn ei llaw, llyfr bach du...

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

Lliw ac arlliw

- ▶ Trafodwch dechneg peintio Gwen John gyda'ch disgyblion. Er mai dim ond nifer cyfyngedig o liwiau oedd ar ei phalet, roedd yn hoffi creu arlliwiau gwahanol. Rhowch un neu ddau liw a phaent du a gwyn i'ch disgyblion. Dosbarthwch wrthrychau fel potiau, cwpanau, blodau a ffrwythau rhyngddynt. Gofynnwch iddynt beintio llun o'r gwrthrychau hyn gan sylwi ar ba mor dywyll neu olau ydyn nhw. Ble mae'r golau'n disgyn ar y gwrthrychau hyn? Ble mae'r cysgodion? Gallai'r disgyblion hyd yn oed ddefnyddio paent trwchus a dabio'r lliwiau ar wynebau eu gwaith.
- ▶ Chwiliwch am baentiadau eraill gan Gwen John yn yr oriel hon. Gallwch ddefnyddio'r syniadau uchod ar gyfer ei phortreadau eraill hefyd e.e. *Ystlyslun o Ferch, Merch mewn Ffrog Werdd*.

celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriel 15)

Gwen John (1876-1939)

Cornel o Stafell yr Artist ym Mharis
1907-09

Olew ar gynfas

- Beth allwch chi ei weld yma?
- Allwch chi feddwl am eiriau i ddisgrifio'r paentiad hwn?
- Beth mae'r ystafell yn ei ddweud wrthym am Gwen John?
- A yw'r paentiad yn cynnig unrhyw gliwiau am ei bywyd?
- Disgrifiwch liwiau a gwead y paent.
- Pa fath o naws sydd yn y paentiad?
- A fydddech chi'n hoffi byw mewn ystafell debyg i hon?
- Ym mha ffordd mae hi'n debyg neu'n wahanol i'ch ystafell wely chi?



celf brydeinig tua 1900: teg edrych tua ffrainc (oriol 15)

Dyma'r ystafell mewn atig y buodd Gwen John yn byw ynddi o wanwyn 1907 tan 1909. Ymgartrefodd ym Mharis ym 1904 a daeth yn fodel i'r cerflunydd Auguste Rodin. Cwmpodd mewn cariad ag ef, ond roedd y berthynas ar ddarfod erbyn y cafodd y llun hwn ei beintio.

Cafodd ei hystafell foel ei defnyddio fel testun sawl paentiad ganddi, ac mae'n ymddangos yn aml fel cefndir i'w phortreadau o ferched. Er bod yr ystafell yn wag, mae'r gadair unig, y dillad a'r ffenestr agored yn awgrymu bod rhywun yno. Nid yw'n anwybyddu'r byd mawr tu allan yn llwyr chwaith, oherwydd fe gawn ein denu at y golau sy'n llifo drwy'r ffenestr a'r awyr las a'r coed yn y pellter.

Gellir disgrifio'r paentiad hwn fel hunanbortread mewn ffordd. Mae nodweddion tawel a threfnus yr ystafell yn efelychu personoliaeth Gwen John. Efallai ei bod wedi disgwyl i Rodin daro heibio, a bod y gadair wag yn symbol o'i absenoldeb yntau o bosibl.

● Gweithgaredd yn yr Oriol ac yn yr Ysgol

- ▶ Chwiliwch am baentiadau eraill o ystafelloedd yn yr Amgueddfa. Cymharwch nhw â'r ystafell wag hon. Meddyliwch am eich ystafell wely chi. A yw'n cynnwys unrhyw gliwiau am eich personoliaeth chi? Beth allech chi ei newid yn eich ystafell wely, er mwyn iddi adlewyrchu'ch cymeriad chi?

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Cafodd gwaith Paul Cezanne gryn ddylanwad ar gelfyddyd fodern yn Ewrop. Roedd yn credu bod nodweddion ffurfiol celf fel lliw, llinell, ffurf a gwriad yn bwysig. Nid oedd rhaid i gelf adrodd stori neu gyfleu'r byd go iawn mwyach. Cafodd llawer o artistiaid eu hysbrydoli gan gelfyddyd gyntefig fel cerflunwaith Affricanaidd a chelf gwerin Ewropeaidd. Arweiniodd hynny at gryn arloesi fel datblygu ciwbiaeth.

Paul Cézanne (1839-1906)
Bywyd Llonydd â Thebot
1902-06
Olew ar gynfas



celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

- Beth oedd y peth cyntaf y sylwoch chi arno wrth edrych ar y llun hwn?
- Pa fath o wrthrychau ydyn nhw?
- Ai gwrthrychau bob dydd neu arbennig ydyn nhw?
- Wnaethoch chi sylwi ar rywbeth arbennig?
- Edrychwch ar wyneb y bwrdd.
- Beth sy'n digwydd iddo?
- Edrychwch yn ofalus ar y darlun, a'r modd y mae wedi'i beintio.
- Disgrifiwch y gwaith brws a ddefnyddiodd Cézanne.
- Ydyn nhw'n edrych fel gwrthrychau fflat neu tri dimensiwn?
- Beth sy'n denu diddordeb Cézanne yma?

Roedd Cézanne yn gysylltiedig â'r Argraffiadwyr ar un adeg. Roedd ganddo uchelgais, fodd bynnag, sef creu gwaith â mwy o strwythur iddo er mwyn "*creu rhywbeth cadarn a pharhaol o Argraffiadaeth, fel celfyddyd yr amgueddfeydd*".

Roedd ganddo ddiddordeb mewn bywyd llonydd fel pwnc, ac fe baentiodd yr un grŵp o wrthrychau dro ar ôl tro. Dewisodd wrthrychau syml o fywyd bob dydd y gallai eu hastudio am hydoedd. Roedd yn hoffi bywyd llonydd oherwydd gallai reoli beth bynnag oedd o'i flaen, a symud pethau o gwmpas tan eu bod yn union fel y dymunai iddynt fod. Yma, mae wedi dewis tebot ac ychydig o ffrwythau ar blât, a rhywbeth yn debyg i liain bwrdd trwm fel cefnlen. Mae rhai o'r eitemau yn gorwedd ym mhlygiadau'r lliain bwrdd, a gallwn ddychmygu ei fod wedi'i blygu'n ofalus iawn i gyd-fynd â'r gwrthrychau sydd arno.

Yn y llun bywyd llonydd hwn, mae'r bwrdd yn gwyro i fyny tuag atom ni'r gwylwyr. Gallwn weld ochr a phen y bwrdd. Un ffordd a ddefnyddiai Cézanne o ddangos y byd tri dimensiwn ar wyneb dau ddimensiwn oedd dangos safbwyntiau gwahanol mewn un llun. Roedd hefyd yn cyflwyno dyfnder i lun trwy roi lliwiau gwahanol wrth ochr ei gilydd. Mae'r lliwiau a ddewisodd ar gyfer y ffrwythau yma yn cilio tua'r cefn tra bo eraill yn ymwithio ymlaen.

Roedd Cézanne yn dewis gwrthrychau syml bob dydd ar gyfer ei baentiadau bywyd llonydd fel y gallai eu defnyddio i archwilio nodweddion mwy ffurfiol creu llun, fel y defnydd o liwiau a chyfleu gofod. Does dim bwlyn ar gaead y tebot, efallai er mwyn adleisio siapiau'r afalau crwn. Nid yw cywirdeb mor bwysig â'r cytgordd a'r cydbwysedd rhwng gwahanol elfennau'r paentiad. Defnyddir siapiau a lliwiau nid yn unig i ddisgrifio'r byd gweledol, ond hefyd i greu mynegiant haeddiannol eu hunain. Roedd paentiad Cézanne yn hollbwysig i ddatblygiad celf fodern wedyn, ac roedd artistiaid fel Picasso yn edmygwyr mawr ohono.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Pablo Picasso (1881-1973)
Bywyd Llonydd gyda Phoron
1948
Olew ar gyfnas

- Edrychwch ar y siapiau, y llinellau a'r lliwiau yma.
- Ydych chi'n gallu adnabod rhai pethau?
- Efallai bod rhai o'r siapiau'n eich atgoffa chi o bethau rydych chi wedi'u gweld o'r blaen.
- Disgrifiwch y llinellau yn y paentiad hwn.
- Disgrifiwch y lliwiau mae Picasso wedi'u defnyddio.
- Ydych chi'n gallu dyfalu beth ysbrydolodd Picasso i beintio hwn?

Peintiodd Picasso luniau bywyd llonydd yn ystod y cyfnod pan oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar serameg. Ym Mharis adeg y rhyfel, roedd bywyd llonydd yn bwnc poblogaidd iawn, yn enwedig pan oedd bwyd yn brin. Mae'r gwaith hwn yn parhau â'r thema hon. Efallai bod y thema gartrefol hefyd yn deillio o'r ffaith bod gan Picasso deulu ifanc ar y pryd.



© Succession Picasso/DACS, Llundain 2010.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Mae lemwn, cimwch a phoron wedi'u gosod ar fwrdd sy'n gwyro tuag atom ni. Ymddangosodd y gwrthrychau hyn mewn paentiadau eraill hefyd, yn enwedig y 'porrón', piser gwin Sbaenaidd traddodiadol.

Mae'n defnyddio lliwiau fflat a llachar yma, ac mae'r llinellau onglog a'r bwrdd sy'n gwyro yn enghraifft o'r dull ciwbaidd. Mae'r llawr hefyd yn gwyro ymlaen, ac mae'r teils hecsagon glas yn union yr un fath â'r rhai yn stiwdio Picasso ym Mharis. Mae hefyd wedi benthycu siapiau a llinellau o weithiau eraill, yn enwedig y llinellau duon trawiadol yn y cefndir. Mae'r llun bywyd llonydd hwn yn un o dri a baentiodd o'r un gwrthrychau ar 26 Rhagfyr 1948.

Ym 1907-14, fe wnaeth Pablo Picasso ac arlunydd arall, George Braque dorri tir newydd gyda'u crefft. Cawsant eu hysbrydoli gan waith arloesol Cézanne gan archwilio dulliau o gyfleu'r byd tri dimensiwn ar wyneb gwastad. Roeddynt yn ymwrthod â'r syniad o un safbwynt ac yn dewis cyfuno sawl safbwynt mewn un llun. Roeddynt yn symleiddio siapiau a'u gwneud yn fwy aneglur yn aml, nes ei bod hi'n anodd gweld beth oedd union destun y gwaith. Er bod *Bywyd Llonydd gyda Phoron* yn perthyn i gyfnod diweddarach, mae'n dangos diddordeb parhaus Picasso mewn Ciwbiaeth a gwaith Cézanne

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Augustus John (1878-1961)

Llanc o Bysgotwr Ffrengig
1907

Olew ar gynfas

- Beth allwch chi ei weld yn y paentiad hwn?
- Beth allwch chi ei weld yn y blaendir a'r cefndir?
- Beth mae'r bachgen yn ei wneud?
- Disgrifiwch ei ddillad.
- Beth yw ei oedran?
- Disgrifiwch ei wyneb a'i fynegiant.
- Beth allwch chi ei ddysgu am y bachgen o'r portread hwn?

Defnyddiwch eich dychymyg...

- Beth mae'r bachgen yn gallu'i weld o ble mae'n sefyll?
- Pa synau all ef eu clywed?
- Tybed beth all ef ei arogl?
- Disgrifiwch ei deimladau.
- Pe baen ni'n ymestyn y llun, beth arall fydden ni'n gallu'i weld yn yr olygfa?
- Disgrifiwch y lliwiau sydd yn y paentiad.
- Pam ydych chi'n credu bod yr arlunydd wedi defnyddio'r lliwiau hyn?
- Sut mae'r lliwiau'n gwneud i chi deimlo?
- Ydych chi'n meddwl bod y llun wedi'i beintio'n gyflym? Edrychwch ar olion y brws.

Cafodd *Llanc o Bysgotwr Ffrengig* ei beintio tra'r oedd Augustus John yn teithio ar hyd arfordir gogledd Ffrainc. Mae testun ac arddull y gwaith yn dangos dylanwad Pablo Picasso. Aeth John i stiwdio Picasso ym Mharis ym 1907. Yn ystod 'Cyfnod Glas' Picasso (1901-1904), fe beintiodd sawl darlun o unigolion ar gyrion cymdeithas mewn lliwiau glas prudd.



© Hawffraint trwy garedigrwydd ystad yr artist/Llyfrgell Gelf Bridgeman.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

● Gweithgareddau yn yr Oriel ac yn yr Ysgol

Ffaith/Barn

- ▶ Defnyddiwch ffeithiau a safbwyntiau am y gwaith i sbarduno trafodaeth. Argraffwch y datganiadau isod, neu ysgrifennwch rai eich hunain a'u torri'n gardiau unigol.

Gofynnwch i bob disgybl gymryd cerdyn, ei ddarllen yn uchel, a phenderfynu ai ffaith neu farn sydd arno.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn. Bydd rhaid i bawb o'r grŵp gytuno â'r datganiad wedyn os yw'n ffaith. Os mai barn ydyw, bydd rhai'n anghytuno a gall hynny ysgogi trafodaethau.

- Augustus John yw enw'r arlunydd a beintiodd y gwaith hwn.
- Mae'r paentiad yn dangos dyn ifanc yn sefyll.
- Nid yw'r dyn ifanc yn gwisgo esgidiau.
- Mae darnau glas ar ei drowsus.
- Mae'r paentiad yn hir a chul.
- Paent olew sydd wedi'i ddefnyddio yma.
- Mae ganddo rywbeth yn ei law chwith.
- Mae'r arlunydd wedi defnyddio sawl math gwahanol o las yn y paentiad hwn.
- Mae ganddo ddwylo mawr iawn.
- Mae'r paentiad wedi'i osod mewn gwlad gynnes.
- Mae golwg ddiflas ar wyneb y dyn ifanc.
- Mae'r dyn ifanc yn teimlo'n anhapus.
- Mae'n edrych yn dlawd a llwglyd iawn.
- Mae'n debyg ei fod yn gweithio'n galed gyda'i ddwylo.
- Mae'r dyn ifanc yn edrych yn boeth iawn.

Defnyddiwch y paentiad fel ysbrydoliaeth i ysgrifennu cerdd.

- ▶ Atebwch y cwestiynau canlynol fel man cychwyn i ysgrifennu cerdd.
- Ble mae e?
- Beth mae'n ei wisgo?
- Beth mae'n gallu'i weld?
- Beth mae'n gallu'i aroglu?
- Beth mae'n gallu'i glywed?
- Sut mae'n teimlo?

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

e.e.

Y Pysgotwr Ifanc

Mae'n sefyll ar y traeth ger y môr mawr glas.

Mae ei ddillad yn garpiog i gyd.

Mae'n gweld yr haul yn pelydru ar y dŵr.

Mae'n aroglu pysgod yn yr aer.

Mae'n clywed cri'r gwylanod.

Mae'n teimlo'n benisel, unig a llwglyd.

Gallai'r llinellau canlynol greu ymatebion gwahanol gan ddisgyblion.

Y Pysgotwr Ifanc

Mae'n sefyll...

Mae ei ddillad yn...

Mae'n gweld...

Mae'n aroglu...

Mae'n clywed...

Mae'n teimlo...

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Augustus John (1878-1961)

Dorelia McNeill yng ngardd Alderney Manor
1911

Olew ar gyfnas

- Beth yw'r peth cyntaf wnaethoch chi sylwi arno yn y portread hwn?
- Ble mae hi'n sefyll?
- Beth mae hi'n ei wneud yma?
- Trafodwch ei dillad hi.
- Pa fath o ddillad ydyn nhw – dillad gorau...gwaith...hen...newydd...?
- Beth allwn ni ei ddysgu am y fenyw o'r paentiad?
- Disgrifiwch sut mae Augustus John wedi peintio'r llun hwn.
- Ydy e wedi'i beintio'n ofalus, yn fanwl, gyda blociau o liw...?

Priododd Augustus John ag Ida Nettleship ym 1901. Ddwy flynedd wedyn, cyfarfu â Dorelia McNeill, ffrind ei chwaer Gwen John. Daeth yn feistres iddo. Buont yn byw gyda'i gilydd yn Llundain, Paris ac yna mewn carafán sipsi tan i Ida farw ym 1907. Symudodd Dorelia ac Augustus i Alderney Manor ychydig flynyddoedd wedyn. Roedd yn byw bywyd bohemaidd, gyda thipyn o steil, a phenderfynodd John bwysleisio'r nodweddion hyn yn y darlun hwn.

Roeddynt yn byw yn Alderney Manor pan beintiodd y llun hwn. Roedd Dorelia yn treulio rhan helaeth iawn o'i hamser yng ngardd fawr eu cartref.

Roedd Augustus John yn arbrofi gyda'i syniadau gyda brws ar y cynfas. Dros amser, dechreuodd rhai o'r haenau o baent sy'n gorchuddio'r olion brws denuo. Allwch chi weld ôl pâr o lygaid ar ei bochau? Mae'r persbectif eithafol, y darnau gwastad o liw, y siapiau clir a'r cefndir fflat yn awgrymu dylanwad paentiadau ôl-argraffiadaeth, yn enwedig gwaith Henri Matisse.



© Hawifraint trwy garedigrwydd ystad yr artist/Lyfrgell Gelf Bridgeman.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Cafodd Augustus John ei eni yn Ninbych-y-pysgod. Roedd yn frawd i Gwen John, a oedd ddeunaw mis yn hŷn nag ef. Astudiodd y ddau yn Ysgol Gelf Slade, Llundain. Roedd yn arlunydd llwyddiannus erbyn iddo droi'n 21 oed, a daeth yn beintiwr portreadau uchel ei barch. Peintiodd sawl portread o bwysigion cymdeithas a'i deulu a'i ffrindiau.

Daeth yr arlunydd a chyd-Gymro James Dickson Innes yn gyfaill iddo, a chrwydrodd y ddau ar hyd a lled Cymru a Ffrainc gyda'i gilydd yn peintio tirluniau bach lliwgar. Ymwelodd â gogledd Cymru sawl tro rhwng 1911 a 1913, weithiau gydag Innes. Anogodd ef i archwilio'r grefft o beintio tirluniau a datblygu arddull fwy cyfoes, rhydd a lliwgar.

Daeth i adnabod llawer o sipsiwn wrth fynd o le i le, a daethant yn bwnc pwysig yn ei waith. Yn wir, fe gafodd ei ysbrydoli gymaint ganddynt nes iddo dreulio cyfnod yn teithio o amgylch Cymru a Lloegr mewn carafán sipsiwn. Ar ôl y Rhyfel, penderfynodd ganolbwyntio ar beintio portreadau er mwyn cynnal ei deulu. Daeth yn un o arlunwyr mwyaf adnabyddus ei genhedlaeth ym Mhrydain, gan beintio rhai o wynebau enwocaf y cyfnod.

● Yn yr Ysgol

Fy rheulu a fi

- ▶ Gweithiwch gyda'ch disgyblion i greu astudiaeth weledol o'u teulu. Pwy yw aelodau'r teulu, ble maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei hoffi/ ddim yn ei hoffi ac ati? Dywedwch wrthynt am dynnu llun o fywyd go iawn. Gallai'r gwaith darlunio fod ar ffurf brasluniau 2 funud sydyn neu astudiaethau manylach. Gallan nhw dynnu lluniau âamera neu gasglu hen ffotograffau. Gofynnwch i'ch disgyblion ysgrifennu nodiadau i ddisgrifio eu teulu. Casglwch waith pawb a'i gyflwyno mewn llyfr bychan. Gallai'r disgyblion greu eu llyfr eu hunain hyd yn oed.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

Stanley Spencer (1891-1959)

I gofio'r Swistir

1935

Olew ar gynfas

- Meddylwch am deitl y darn hwn.
- Beth mae'n ei awgrymu?
- Pryd a pham fyddech chi'n prynu cofrodd?

Cafodd Stanley Spencer wahoddiad gan ei gyfaill Syr Edward Beddington-Behrens i ymuno gydag ef a'i westeion ar wyliau i'r Swistir yn ystod haf 1933. Roedden nhw'n aros ym mhentref Saas Fee, yn uchelfannau'r Alpau. Roedd Behrens eisiau i Spencer gofnodi'r gwyliau iddo i gofio amdano, fel cofrodd. *"Efallai y bydd bywyd yn y mynyddoedd, lle mae crefydd yn rhan mor amlwg a phwysig ym mywydau'r bobl, yn ei ysbrydoli."*

Fe wnaeth Spencer lu o luniau o bobl, gwisgoedd, capeli a chysegrfeydd ymyl y ffordd tra'r oedd yno. Cafodd y darlun olew mawr hwn ei beintio ar ôl iddo ddychwelyd i Loegr. *"Tra'r oeddem ni yno, fe greodd ddarluniau bendigedig o'r menywod hyn, ac ar ôl dychwelyd adref, fe beintiodd ddarlun mawr â golygfeydd o Saas-Fee sef I gofio'r Swistir."* (Beddington-Behrens).

- Mae'r paentiad hwn yn llawn pobl, a phob un ohonynt yn gwneud rhywbeth. Beth maen nhw'n ei wneud?

Mae'r paentiad wedi'i rannu'n dair rhan, gyda phob cynfas wedi'i osod wrth ochr ei gilydd. Triptych yw hwn, sef yr enw sydd fel arfer yn cael ei roi ar baentiad crefyddol a fyddai wedi'i osod dros allor yr eglwys. Mae pob rhan yn cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd y pentref, er bod ambell gyfeiriad crefyddol yma hefyd.



© Ystad Stanley Spencer 2010.
Cedwir pob hawi, DACS.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriol 14)

Gwelwn famau a phlant yn gweddïo ar y panel chwith. Mae'r fenyw ar y chwith yn gwisgo sgarff batrymog ar ei phen, a oedd yn gyffredin ymhlith menywod wrth eu gwaith yn nyffryn Saas. Mae'r fenyw arall yn y panel yn gwisgo penwisg mwy coeth. Yn y cefndir, mae mynydd Allalinhorn sydd i'r de o Saas Fee.

Mae'r panel canol yn fwy cymhleth. Mae'n cynnwys pump grŵp gwahanol, gyda phob un yn ymwneud â gweithgareddau unigol. Mae'r ddwy fenyw yn y blaendir yn gwisgo dillad gwaith, a byddai'r basgedi ar eu cefnau wedi'u defnyddio at ddibenion ffermio fel arfer. Yma, maen nhw'n defnyddio'r basgedi i gario bara Ffrengig a phlant. Mae'r ddwy wraig yn y cefndir yng ngwisg draddodiadol yr ardal. Fel arfer, byddai'r penrwymynnau brodwaith gwyn ac aur yn cael eu gwisgo gan famau bedydd mewn gwasanaethau bedydd ac angladdau plant. Efallai mai plygiadau hir blancedi bedydd sydd o'u blaenau, ac mae'n bosibl bod arwyddocâd crefyddol i'r rhoseddi sydd gan y dynion yn y cefndir. Yn aml, byddai dynion crefyddol yn eu gwisgo ar drydydd Sul y mis.

Mae dau ffigur yn y grŵp sy'n gweddïo ar y dde yn gwisgo dillad y 1930au yn lle gwisgoedd traddodiadol. Maen nhw'n wahanol i'r gweddill, felly. Roedd hunanbortread neu bortreadau o'i ffrindiau yn un o nodweddion amlwg paentiadau olew Spencer. Credir mai portread o Patricia Preece, cymar Spencer, yw'r ferch yng ngwisg y 1930au. Nid ydym yn gwbl sicr p'un o'r ffigyrau yw'r hunanbortread o Spencer. Roedd Beddington Behrens yn credu mai'r trydydd ffigur o'r dde yn y grŵp hwn ydoedd, tra'r oedd ei ferched ar y llaw arall yn meddwl bod y dyn â'r het galed sy'n eistedd nesaf at yr offeiriad yn debycach i'w tad.

Mae'r panel ar y dde yn cynnwys cyfuniad o'r crefyddol a'r seciwlar. Tra bod menywod yn gweddïo, mae pobl eraill yn gwneud gwaith palu a chynaeafu.

Nid oedd Beddington-Behrens yn hollol hapus gyda'r gwaith pan welodd ef cyn iddo gael ei gwblhau. Dywedodd wrth Spencer ei fod am brynu popeth a beintiodd yn ystod ei arhosiad yn y Swistir. Ond ceisiodd osgoi prynu'r gwaith hwn, a dweud wrth Spencer am gadw'r £100 o flaendal yr oedd eisoes wedi'i dalu. Er hynny, fe brynodd y gwaith pan gafodd ei gwblhau, ac ef oedd noddwr mwyaf ffyddlon Spencer yn ystod y 1930au.

Syr Stanley Spencer oedd un o beintwyr ffigurol gorau Prydain yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Roedd llawer o'i weithiau yn trin a thrafod themâu crefyddol mewn cyd-destun cyfoes. Mae'r rhan fwyaf o'i baentiadau naratif mawr yn llawn pobl, a phob un yn gwneud rhyw waith neu'i gilydd. "*Rwyf angen pobl yn fy ngwaith llawn cymaint ag yn fy mywyd.*" Pobl gyffredin, digon afrosgo ydynt, wedi'u peintio â lliwiau gwan mewn golau cyson. Roedd yn anwybyddu persbectif traddodiadol yn aml, ac yn mabwysiadu cyfansoddiad mwy naif a diniwed ar gyfer ei waith. Roedd ganddo ddiddordeb brwd yn odrwydd bywyd bob dydd, ac yn arsylwr mawr ohono.

celf ar ôl cézanne: y 'cyntefig' a'r modern (oriel 14)

● Yn yr Ysgol

Modelau Tri Dimensiwn

- ▶ Bydd y gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i'r disgyblion edrych ar ddelweddau dau ddimensiwn a'u cynrychioli fel modelau tri dimensiwn. Gofynnwch i bob plentyn ddewis un ffigwr o'r paentiad a gwneud lluniau ohono. Rhowch ddarn o wifren feddal a bloc o bren â thyllau iddynt. Yna, gofynnwch iddyn nhw blygu'r wifren i ail-greu ffurf a siâp eu ffigwr dewisol. Dywedwch wrthynt am symud eu cerflun o gwmpas er mwyn edrych arno o safbwyntiau gwahanol. Ar ôl iddynt gwblhau'r strwythur gwifren, beth am ei orchuddio â *papier mâché* neu 'mod roc' er mwyn creu cerflun llawnach?

celf fodern ers 1930: swrealaeth a neo-ramantiaeth (oriel 12)

Mae artistiaid swreal yn archwilio delweddu breuddwydion a byd yr isymwybod yn eu gwaith. Mae rhai darnau swreal yn gallu peri anniddigrwydd tra bod eraill yn codi gwên, yn enwedig wrth gyfuno gwrthrychau annisgwyl neu hollol ddigyswllt. Roedd yr artistiaid hyn yn arbrofi â thechnegau gwahanol hefyd.

Roedd swrealaeth yn gysylltiedig ag arddull newydd a ddatblygodd ym Mhrydain, sef Neo-Ramantiaeth. Roedd yr artistiaid hyn yn creu tirluniau llawn dychymyg ac abstract yn aml, gyda phobl ynddynt weithiau. Dewisodd nifer o artistiaid Neo-Ramantaidd weithio yng Nghymru, gan gynnwys Graham Sutherland.

Graham Sutherland (1903-1980)

Coed gyda Siâp G-I

1972

Olew ar gynfas



© Ystad Graham Sutherland.

celf fodern ers 1930: swrealiaeth a neo-ramantiaeth (oriol 12)

- Beth oedd y peth cyntaf a ddenodd eich sylw chi yn y darn hwn?
- Ai tirlun ydyw?
- Pam ydych chi'n credu hyn?
- Pa siapiau ydych chi'n gallu ei adnabod yma?
- Disgrifiwch y lliwiau rydych chi'n gallu'u gweld.
- Disgrifiwch y gwahanol weadau.
- Disgrifiwch y siapiau.
- O ble gafodd yr arlunydd y syniadau ar gyfer y paentiad hwn?

Ymwelodd Graham Sutherland â Chymru am y tro cyntaf yn ystod gwanwyn 1934. Cafodd ei hudo'n syth gan dirwedd ac arfordir Sir Benfro.

Mae teitl y darn yn rhoi cliw inni o destun y darn. Mae ffotograff o Sutherland yn tynnu llun coeden debyg i'r un sydd yn y paentiad hwn. Mae'r ffotograff yn ei ddangos yn eistedd ar gadair ac yn wynebu'r goeden. Mae'r goeden yn ymddangos yn ffurfiol ac anferthol yn y paentiad hwn. Tybed a yw'r arlunydd yn ceisio dyrchafu'r goeden gyffredin trwy ei phortreadu mor fawr?

Mae llawer o'r eitemau cyfarwydd sydd yma, fel coed, perthi, dail, waliau, cerrig ac anifeiliaid i'w gweld ym myd natur. Gwyddom fod Sutherland wedi casglu llawer o syniadau ar gyfer ei baentiadau wrth grwydro cefn gwlad ac ar hyd glannau afonydd a'r arfordir. Un o'i hoff destunau oedd gwreiddiau'r coed a welodd yn tyfu dros wal ym Mhictwn ac yn ymwthio drwyddi. Mae ffurfiau clymog yn gyffredin yn ei waith. Ai dyma'r ysbrydoliaeth i'r cwlwm yng nghanol y paentiad hwn?

Mae gan y ffurfiau organig hyn nodweddion eraill yn aml. Gall lliwiau, gwadau a siapiau gyfleu wynebau dynol ac anifeiliaid. Mae dail yn troi'n wynebau, a waliau cerrig yn troi'n anifeiliaid. Mae'n amhosib gwybod ai dyma union fwriad Sutherland.

Wrth graffu'n agosach ar y paentiad, gallwch weld olion grid o dan y paent olew. Mae hyn yn dangos dull Sutherland o drosglwyddo manylion ei ddarluniau bach a'i ffotograffau i baentiadau olew mawr. Mae llawer o'i ddarluniau a ffotograffau'n cynnwys gridiau mân hefyd.

Mae'r ddelwedd dywyll a rhyfedd hon yn llawn cyfeiriadau at y byd naturiol, ac yn dangos dylanwad cryf tir a môr Sir Benfro ar Sutherland. Mae'n defnyddio'r holl wybodaeth weledol a gasglodd yn ei frasluniau, ei ffotograffau a'i ddarluniau mwy manwl yn ogystal â'i atgofion a'i ddychymyg.

Dechreuodd Graham Sutherland weithio fel gwneuthurwr printiau ar ôl dysgu'i grefft yng Ngholeg Celf Goldsmith, Llundain. Dyma ei fywoliaeth tan 1929, pan

celf fodern ers 1930: swrealiaeth a neo-ramantiaeth (oriol 12)

arweiniodd cwmp Wall St at lai o alw am brintiau yn America. Penderfynodd arallgyfeirio a gweithio fel dylunydd masnachol. Cynlluniodd bosteri, stampiau, tapestrïau a phapur wal. Ym 1940, cafodd ei benodi'n arlunydd swyddogol y rhyfel, a chofnododd ddifrod y bomiau yng Nghaerdydd ac Abertawe. Yn ogystal â thirluniau, bu'n peintio portreadau, gan gynnwys yr un enwog o Winston Churchill. Trefnodd gwraig Churchill i'r llun gael ei ddinistrio, oherwydd bod ei gŵr yn ei gasáu cymaint.

● Gweithgareddau yn yr Oriol ac yn yr Ysgol

- ▶ Defnyddiwch y paentiad hwn i sbarduno trafodaeth am fyd dychmygol. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu hunain yn y lle hwn. Sut fydddech chi'n teimlo pe baech chi'n sefyll yma? Pa seiniau fydddech chi'n gallu'u clywed? Beth allech chi ei aroglï? Beth allech chi ei weld? Casglwch yr holl atebion a defnyddiwch nhw i ysgrifennu cerdd fel dosbarth.
- ▶ Ewch â'r dosbarth am dro i rywle lle rydych chi'n debygol o weld ffurfiau naturiol diddorol. Gofynnwch i'ch disgyblion restru popeth sy'n ddiddorol i'r llygaid. Dewiswch rai ohonynt a gwnewch frasluniau cyflym, ychydig o ddarluniau manwl a nodiadau ysgrifenedig. Trafodwch y lliwiau a'r gwadau gwahanol. Gwnewch rwbiadau o arwynebau diddorol. 'Nôl yn yr ystafell ddosbarth, gall disgyblion ddewis a dethol eu darluniau a gludo darnau ohonynt ar dirlun dychmygol. Beth am wneud rhannau o'u darluniau yn fwy naill ai trwy sganio ar gyfrifiadur neu ddefnyddio peiriant llungopiö? Anogwch y disgyblion i arbrofi gyda gwahanol fathau o bapur a deunyddiau i greu gwadau gwahanol.

celf fodern ers 1930: swrealaeth a neo-ramantiaeth (oriel 12)

Ceri Richards (1903-1971)

Cylch Natur

1944

Olew ar gyfnas

- Beth oedd y geiriau cyntaf a ddaeth i'r meddwl wrth edrych ar y paentiad hwn?
- Ydych chi'n gallu adnabod unrhyw rai o'r siapiau?
- Breichiau, coesau, adenydd, petalau, fflamau, troed, grawnwin neu lygaid efallai?
- Meddyliwch am y gwaith yn ei gyfanrwydd.
- A oes un thema sy'n cysylltu'r cyfan?
- Disgrifiwch y lliwiau a'r gweadau sydd yn y paentiad. Mae rhai'n amlwg iawn tra bod eraill yn diflannu ac yn ymdoddi i'w gilydd. Chwiliwch am enghreifftiau o liwiau a gweadau cyferbyniol.



© Ystad Ceri Richards. Cechwir pob hawl, DACS 2010.

celf fodern ers 1930: swrealiaeth a neo-ramantiaeth (oriol 12)

Mae'r paentiad hwn ymhlith nifer a wnaeth Ceri Richards rhwng 1943 a 1969, a oedd yn trafod thema natur. Mae'n gysylltiedig â barddoniaeth Dylan Thomas. Cafodd ei ysbrydoli gan y llinell *"The force that through the green fuse drives the flower"*. Roedd yr un delweddau'n ymddangos dro ar ôl tro yn ei baentiadau, ei brintiau a'i lyfrau braslunio o'r cyfnod hwn.

Roedd y newid o ddydd i nos, o un tymor i'r llall a thaith bywyd o'r crud i'r bedd yn ddylanwadau cyson ar ei waith, ac yn ei helpu i ddewis ei ddelweddau. Roedd yn gosod delweddau annisgwyl ochr yn ochr â'i gilydd, sy'n dangos stamp a dylanwad swrealiaeth arno.

Mae gwrthgyferbyniad llwyr rhwng gwead graeanog hanner isaf y paentiad, ac arwyneb llyfn y rhan uchaf. Mae'r delweddau niwlog ac aneglur ar y chwith yn wahanol iawn i'r siapiau clir a'r lliwiau coch a gwyrdd clir ar y dde. Mae'r darlun cyfan yn llawn mynd. Mae'r smotyn bach ar waelod y paentiad yn awgrymu hedyn bychan wedi'i blannu, sy'n egino ffrwydrad o ddelweddau sy'n ymdoddi ac yn gweu i'w gilydd.

Gofynnwyd i Ceri Richards unwaith a oedd yn defnyddio natur fel sail i'w waith, ac a oedd ganddo syniadau pendant am bethau cyn dechrau gweithio. Mae ei ateb yn esbonio ei ffordd o weithio, *"Mae'n rhaid i mi gyfeirio'n uniongyrchol at natur fel ysbrydoliaeth cyn y gallaf ddechrau peintio. Unwaith i mi gyfleu mynegiant o'r ysbrydoliaeth hon ar gynfas, mae'r paentiad yn datblygu'n naturiol ei hun."*

Ganwyd Ceri Richards yn Nynfant ger Abertawe ym 1903. Bu cerddoriaeth, barddoniaeth a byd natur yn ysbrydoliaeth i'w baentiadau, darluniau, printiau ac adeiladwaith gydol ei oes. Dechreuodd ymddiddori fwyfwy yng ngweithiau Picasso a Matisse wrth astudio yn y Coleg Brenhinol. Erbyn y 1930au, roedd crefft y Swrealwyr, yn enwedig eu technegau byrfyryr a defnyddio pethau ar hap, wedi cydio yn ei ddychymyg. Arbrofodd Richards gyda gwahanol arddulliau a thechnegau.

celf fodern ers 1930: swrealiaeth a neo-ramantiaeth (oriel 12)

● Yn yr Ysgol

- ▶ Beth am ystyried gwaith printio fel techneg i drafod thema natur ymhellach. Ewch ati i gasglu detholiad o ffurfiau naturiol i'r disgyblion weithio arnynt. Cofiwch eiriau Ceri Richards *"Rwy'n gorfod cyfeirio'n uniongyrchol at fyd natur fel sbardun cyn y gallaf ddechrau peintio"*. Gofynnwch i'ch disgyblion wneud rhwbiadau o arwynebau gwahanol a thynnu lluniau o rai o'r gwrthrychau. Ar ôl casglu detholiad o wybodaeth weledol, gofynnwch i'ch disgyblion ystyried cynlluniau ar gyfer eu gwaith printio.
- ▶ Gallwch ddefnyddio rhai o'r gwrthrychau eu hunain i greu printiau. Neu, gallwch lunio'r cynllun ar ddarn o gerdyn.
- ▶ Gludwch (PVA) siapiau cardiau ar ddarn o gerdyn. Mae hen becynnau grawnfwydydd brecwast yn dda ar gyfer hyn. Gwnewch rwbriad o'r bloc printio cyn ei ddefnyddio ar gyfer creu printiau. Defnyddir bloc sy'n cynnwys amrywiaeth o wynebau gweadog gwahanol ar gyfer techneg printio colograff. Mae pob siâp yn cael ei ludo ar y bloc. Ar ôl cwblhau'r bloc, rhaid selio'r wyneb gyda chymysgedd o lud PVA a dŵr. Wedi iddo sychu, gallwch ddefnyddio'r bloc i greu printiau.
- ▶ Roedd geiriau Dylan Thomas yn ysbrydoliaeth uniongyrchol i Ceri Richards yn ei waith *Cylch Natur*. Mae iaith yn gallu ysbrydoli delweddu gweledol e.e. oer, gwlyb, blinedig, swnllyd, trist, gwallgof, tawel... Cyflwynwch eiriau unigol neu frawddegau i'r plant. Gallant fod yn ansoddeiriau neu hyd yn oed eiriau sy'n awgrymu teimlad arbennig. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am y geiriau hyn a chreu siapiau ohonynt. Rhowch amrywiaeth o ddeunyddiau tryloyw iddynt, e.e. papur sidan, ffabrig rhwyd, papur bag te, papur dargopïo. Torrwch rai o'r siapiau a'u rhoi o dan y deunyddiau tryloyw. Gallech roi rhai o'r geiriau yn y siapiau a llenwi'r gwaith gyda lliw.

celf fodern ers 1930: swrealaeth a neo-ramantiaeth (oriel 12)

René Magritte (1898-1967)

Y Masg Gwag

1928

Olew ar gyfnas

- Beth allwch chi ei weld yn y paentiad hwn?
- Sut mae'r gwaith wedi'i beintio?
- Ydych chi'n meddwl bod Magritte yn ceisio gwneud i'r eitemau hyn ymddangos fel gwrthrychau go iawn?
- A fydddech chi'n disgwyl eu gweld mewn ffrâm?
- Ydych chi'n credu bod rhywbeth yn cuddio tu ôl i'r ffrâm?

Mae'r chwe gwrthrych hwn yn bethau cyfarwydd sydd wedi'u gosod mewn cyd-destun anghyfarwydd. Yn aml byddai Magritte yn tynnu gwrthrychau o'u lle arferol ac yn eu cyflwyno mewn amgylchedd anghyfarwydd. Yma, mae'n cyfuno pethau digyswllt. Mae Magritte yn ceisio herio ein syniadau am realaeth.

Trwy eu cyfuno mewn ffrâm, mae Magritte yn ein gwahodd i wneud synnwyr o'r hyn sydd o'n blaenau ni, a gwneud inni holi pam bod y gwrthrychau wedi'u gosod gyda'i gilydd fel hyn. Efallai y bydddech yn disgwyl gweld coedwig mewn tirlun ond nid o fewn ffrâm fel hyn. Mae'n amhosib gwneud synnwyr o'r casgliad hwn o wrthrychau, yn union fel y bwriadodd Magritte.



© ADAGP, Paris a DACS, Llundain 2010.

celf fodern ers 1930: swrealiaeth a neo-ramantiaeth (oriol 12)

- Meddylwch am deitl y gwaith – *Y Masg Gwag*.
- Pryd a pham fyddech chi'n gwisgo masg?

Roedd diflannu a chuddio yn themâu cyson yng ngwaith Magritte. Mae'r syniad o ffrâm o fewn ffrâm hefyd yn codi'n gyson ganddo, fel yn y paentiad hwn.

Mae pob eitem o fewn y ffrâm wedi'i pheintio'n realistig. Roedd Magritte yn credu y gallai delweddau gyfleu negeseuon, syniad a ddeilliodd o'i waith cynnar ym myd hysbysebu a chyhoeddusrwydd mae'n debyg. Mae ei dechneg peintio a'i waith modelu llyfn yn peri inni feddwl ein bod yn edrych ar bethau go iawn.

Artist o Wlad Belg oedd René Magritte, ac roedd yn swrealydd pwysig dros ben. Collodd ei fam wrth iddi foddi'i hun ym 1912, a chredir bod y digwyddiad trawmatig hwn wedi dylanwadau ar y delweddau sydd yn ei baentiadau. Bu'n gweithio ar ei liwt ei hun fel cynllunydd posteri a hysbysebion cyn dechrau ar yrfa fel arlunydd. Datblygodd dechneg beintio lle gallai gyfleu gwrthrychau mewn ffordd realistig. Yn aml byddai'n gosod gwrthrychau rhyfedd ar y naw mewn cyd-destun anghyfarwydd.

● Yn yr Ysgol

Pethau rhyfedd

- ▶ Dewiswch wrthrychau i'w gosod o flaen eich disgyblion. Gofynnwch iddynt ddewis dau beth na fyddent byth yn disgwyl eu gweld gyda'i gilydd. Gofynnwch iddyn nhw greu darluniau arsylwadol a meddwl am ffyrdd o ddod â'r ddau wrthrych at ei gilydd. Dangoswch enghreifftiau o waith Magritte ac artistiaid swreal eraill e.e. Salvador Dali. Yna, gallant greu paentiad, darlun neu collage.

Gwir neu ddychmygol

- ▶ Gallwch greu'r project hwn ar raglen beintio syml ar y cyfrifiadur neu fel project collage gan ddefnyddio deunyddiau arferol. Dewiswch ddwy neu dair delwedd sy'n ymddangos yn realistig – fel ffotograffau'r disgyblion neu luniau o gylchgrawn. Sganiwch y delweddau hyn, torrwrch nhw a'u gludo ar gefndir cwbl wahanol ac annisgwyl. Bydd hyn yn gwneud i'r disgyblion amau a chwestiynu'r hyn maen nhw'n ei weld, yn union fel mae *Y Masg Gwag* gan Magritte yn gwahodd y gwylwr i gwestiynu a cheisio deall a dehongli'r gwrthrychau yn y ffrâm.

darlunio yn yr orielau



Mae llawer o blant, pobl ifanc ac oedolion yn dal i gael eu hysbrydoli gan weithiau celf yr orielau hyn. Mae'r Amgueddfa yn croesawu unigolion a grwpiau sy'n dymuno darlunio a braslunio yma. Ond cofiwch ei bod yn hawdd difrodi gweithiau celf. I osgoi hyn, dilynwch y canllawiau canlynol:

- Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw baentiad neu wrthrych.
- Cadwch fyrddau darlunio a deunyddiau celf yn ddigon pell o waliau, gwrthrychau a gweithiau celf.
- Peidiwch â defnyddio chwistrellau gludo neu sefydlogi yn unrhyw oriel.
- Gallwch ddefnyddio'r deunyddiau hyn yn yr orielau – pensiliau lliwio, creonau cwyr, pasteli olew, pensiliau darlunio, ffyn graffit, ffyn gludo (e.e. pritt) a deunyddiau collage (e.e. papur lliw, siswrn, cortyn ac ati).
- Os ydych chi'n defnyddio paent, siarcol a phasteli, dewch â gorchudd llawr gyda chi. Dim ond myfyrwyr celf ac oedolion ddylai ddefnyddio'r rhain yn yr orielau.



Syniadau

- Edrychwch ar siapiau unigol mewn gwaith celf. Tynnwch lun o'r siapiau gan hepgor unrhyw fanylion.
- Tynnwch lun o amgylch rhan o'r manylyn gwreiddiol. Rhowch gopi o ran o'r gwaith i'r disgyblion. Gallwch ddewis darn o gerdyn post neu ran o ddelwedd o dudalen 'Celf Ar-lein' yr Amgueddfa.
- Dewiswch ddarn o'r gwaith, a gwnewch fraslun manwl ohono.
- Sylwch ar yr olion brwsio a'u cofnodi.
- Gwnewch fraslun sydyn o'r cyfansoddiad.
- Copïwch y patrwm ar y wisg neu ddarn o borslen.
- Tynnwch lun â nodiadau. Ysgrifennwch nodiadau am elfennau o'r gwaith sy'n anodd eu darlunio.
- Os ydych chi'n edrych ar waith tri-dimensiwn, tynnwch lun o sawl safbwynt gwahanol. Edrychwch yn ofalus ar y gwaith, o bell ac agos.